

# ECO'R WYDDFA

RHIF 323

MEHEFIN 2005

PRIS 40c

## Yn y rhifyn hwn

- Helyntion Bachgen o Chwarelwr
- Englynion Morris D. Jones – tud. 6
- Teyrngedau i Jean Parc Jones – tud. 3 a 17
- Byd a Bywyd Caradog Prichard – tud. 4

## Ffarwél i'r Sbectol



Dal i  
Sbectol  
Dros fy  
Sbectol

John Roberts  
Williams

Rhai o lyfrau y diweddar  
John Roberts Williams

MIL a MWY

Y pumed detholiad  
o sgysiau  
Dros fy Sbectol

Pum Munud i  
CHWECH

-ac i  
WYTH

John Roberts Williams  
yn edrych dros ei sbectol

CHWARTER CANRIF  
fesul pum munud  
DROS SBECTOL  
JOHN ROBERTS WILLIAMS



sydd yn fwy o gamp o  
ystyried mai ar ôl iddo  
ymddeol y cychwynnodd  
y gyfres.

Bydd y gyfrol ola yn  
cynnwys tua 50 o  
golofnau amrywiol o'r  
cyfnod rhwng Medi

1999 a 2004, ynghyd ag ambell  
sgwrs o gyfnod yr 80au cynnar  
sydd heb eu cyhoeddi o'r blaen.  
Yn y colofnau ceir cyfuniad yn  
aml o'r rhyngwladol i'r  
cenedlaethol i'r lleol, ac mae'r  
gyfrol yn cynrychioli'r pynciau  
oedd yn agos at galon yr  
darlledwr yn y blynyddoedd  
diweddar, megis y Cynulliad a'r  
rhyfel yn Irac.

Cyhoeddir *Ffarwél i'r Sbectol*  
gan Wasg Gwynedd ym mis  
Gorffennaf.

YN YSTOD yr haf hwn  
cyhoeddir *Ffarwél i'r Sbectol*,  
sef y gyfrol olaf o sgysiau  
radio'r diweddar John Roberts  
Williams. Eisoes cyhoeddwyd  
wyth cyfrol o'r clofnau radio,  
a'i ddymuniad ef oedd bod y  
gyfrol hon hefyd yn cael ei  
chyhoeddi. Dros y misoedd  
diwethaf bu Alun Rhys,  
cynhyrchydd y colofnau radio,  
yn pori drwy dros 250 o  
sgriptiau rhaglenni a

ddarlledwyd rhwng Medi 1999  
a'r 18ed o Fedi 2004, sef y  
rhaglen olaf, gan ddewis a  
dethol y rhai i'w cynnwys.

'Wrth gwrs, gan fod 'na  
golofn wythnosol, roedd 'na  
doreth o sgriptiau dros y  
blynyddoedd, a braint enfawr  
oedd bod John Roberts  
Williams wedi gofyn i mi  
baratoi'r llyfr hwn,' meddai  
Alun Rhys

John ddewisodd y teitl ac

roedd yn gyfrifoldeb mawr i  
ddewis a dethol o'r sgriptiau, yn  
ogystal â bod yn bleser pur  
hefyd, ac yn atgoffa rhywun o  
ehangder a manylder ei  
wybodaeth,' ychwanegodd.

'Fy ngobaith i yw y bydd  
pobl yn cael cymaint o foddhad  
o ddarllen y colofnau ag a gefais  
i yn eu dewis,' ychwanegodd.

Bu John Roberts Williams yn  
darlledu'r colofnau radio hyn yn  
ddi-dor am 29 mlynedd, ffaith

## Dudley ar Daith er budd Apêl Asia/Affrica S4C

Bydd y cogydd poblogaidd, Dudley Newbery  
– sy'n dathlu degfed pen-blwydd ei gyfres  
deledu eleni – yn ymweld â **Galeri yng  
Nghaernarfon nos Lun, 13 Mehefin**, i  
gynnal noson arbennig er budd Apêl  
Asia/Affrica S4C.

Yn ogystal â pharatoi pryd tri chwrs, gan  
ddefnyddio cynnyrch Cymreig lleol, bydd  
nifer o westeion yn ymuno â Dudley yn ystod  
y noson, gan gynnwys cyflwynydd *Ffermio*,  
Dalon Metcalfe, a Chôr Iau Ysgol  
Glanaethwy.

'Mae'n mynd i fod yn noson i'w chofio,'  
meddai Pennaeth Marchnata S4C, Eleri  
Twynog, sy'n gyfrifol am gydlyn  
gweithgareddau codi arian yr apêl.

'Mae steil cynnes Dudley, ynghyd â'i  
ddawn goginio arbennig, yn boblogaidd iawn  
gyda gwylwyr S4C a dwi'n siŵr y bydd pobl  
yn mwynhau'r noson yn iawr, gan gymryd y  
cyfle hefyd i gefnogi achos da gwerth chweil.'

Tsunami Relief Cymru a gwaith Oxfam

Cymru yn Tanzania, Affrica, sydd i elwa o Apêl  
S4C yn 2005. Eisoes mae nifer o weithgareddau  
ar y gweill.

Bydd arian o'r apêl yn cefnogi dau brosiect  
Oxfam Cymru yn Shinyanga, Tanzania:

- i) i ddarparu prydau bwyd maethlon amser  
cinio i blant mewn 12 o ysgolion, a
- ii) i wella'r system ddŵr a charthffosiaeth.

Wedi ei sefydlu yn union yn dilyn y tsunami  
enbyd yn Asia, mae Tsunami Relief Cymru yn  
cynnal cyfres o ddigwyddiadau codi arian  
ledled Cymru. Mae ei hadnoddau ar gael i bobl  
eraill sy'n dymuno trefnu eu gweithgareddau  
eu hunain er budd yr elusen.

Mae S4C hefyd yn cefnogi ymgyrch  
ehangach 'Rhown Derfyn ar Dlodï'.

Mae tocynnau ar gyfer y noson ar werth o  
swyddfa docynnau Galeri am £5 i oedolion a £4  
i blant; rhif ffôn (01286) 685222. Bydd pob elw  
yn mynd tuag at gefnogi'r Apêl.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mali  
James, Swyddfa'r Wasg (02920) 741452.





# ECO'R WYDDFA

**RHIF 323  
MEHEFIN 2005**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Gibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth  
Bwrdd yr Iaith Gymraeg  
i'r cyhoeddiad hwn.

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

### Tîm Golygyddol

d/o PALAS PRINT  
7B STRYD PLAS  
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631  
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631  
Bryn Jones (01286) 674405  
Llinos Jones (01286) 871820  
Richard Thomas (01286) 871954  
Sion Williams (01286) 871858  
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**  
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**  
Richard L. Jones, 5 V Ddôl, Bethel.  
(01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**  
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,  
Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**  
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd  
Glanffynnon, Llanrug (675605)  
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**  
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**  
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**  
Shioned Griffith (650570)

### GOHEBWYR PENTREFI

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran  
(01248) 670726

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-  
Williams, Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn  
Gwna (677438)

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
Bodafon, Ceunant (650799)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands,  
Glanrafon (872275)

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**DEINIOLLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith,  
(870394)

**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts,  
Sŵn-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn  
(675384)

**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant  
Ffynnon (871820)

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth  
(872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry,  
Ael-y-Bryn (872276)

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon,  
Waunfawr (650570)

**Cefnogwch  
ein Hysbysebwyrr**

**Y RHIFYN NESAF**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS LUN, 20 MEHEFIN**  
Os gwelwch yn dda  
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**NOS IAU, 30 MEHEFIN**

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,  
Rhyw bedair blynedd yn ôl  
derbyniodd yr Amgueddfa  
Lechi rodd o gadair Eisteddfod  
Chwarel Dinorwig gan Mrs J. E.  
Jones, Caernarfon. Enillwyd y  
gadair hon gan ei diweddar  
briod, Emyr Jones, yn 1938, am  
ei gerdd fuddugol mewn  
cystadleuaeth a gynhaliwyd yng  
Nghaban Mills.

Ein bwriad fel sefydliad ydi  
dangos y gadair hon i'r cyhoedd  
yn ein pabell arbennig ar faes yr  
Eisteddfod Genedlaethol eleni.  
I gyd-fynd â'r digwyddiad  
pwysig hwn, ein dymuniad  
pennaf yw dod o hyd i'r gerdd  
fuddugol fel y gallwn ei  
harddangos gyda'r gadair.

Oes copi o'r gerdd yn bodoli  
gan un o'ch darllenwyr?

Byddwn yn ddiolchgar iawn  
am unrhyw sylwadau neu  
ymateb. Cysyllter â Tudur Jones  
ar 01286 873708 neu ar gyfeiriad  
c-bost Tudur.Jones@aoc.ac.uk

Y Dalar Deg  
Llanrug

### Siambar Selwyn

Diddorol oedd darllen hanes  
Eisteddfod 1979. Faint  
ohonoch, fel fi, sydd yn cofio  
1921 yn yr hen Bafiliwn yng  
Nghaernarfon a minnau yn  
mynd yno yn dair ar ddeg oed.

Cofiaf Eisteddfod  
Genedlaethol a Cynan yn cael ei  
goroni am 'Fab y Bwthyn', dyn  
ifanc oedd o yr adeg honno. Pa  
flwyddyn oedd hi?

Bûm ar Bwyllgor Drama yn  
1955. Byddai fy nhad, Tom  
Jones, ar Bwyllgor Drama a  
Cynan, erbyn hyn yn cymryd  
diddordeb ac yn actor da.

Yn 1969, daeth Irma i  
gynrychioli Cymry'r Wladfa a  
chael ei hurddo gan yr Orsedd  
yn Irma Ariannin. Ai ym  
Mangor oedd hynny?

Braf ydi medru edrych yn ôl.  
Yn gywir  
Gwladys M. Jones

# caban

Mae tŷ bwyta newydd wedi  
agor yma bob nos Wener.  
Bwyd bendigedig yn defnyddio  
cymysgedd o gynhwysion ffres,  
wedi ei gynhyrchu'n lleol.  
Pryd organig yn bosibl.

2 gwrs: £16

3 cwrs: £20

Dewis eang o  
winoedd a chwrw

Ffôn y Caffi: 685500

Peiriant ateb: 685460

e-bost: nia@caban-cyf.org



## Cyfarfod cyn-ddisgyblion Hen Ysgol Sir Brynrefail 1900-1955

Rydym yn hyderus iawn erbyn  
hyn y cawn gyfarfod  
llwyddiannus ar Faes  
Eisteddfod y Faenol eleni.  
Eisoës mae nifer sylweddol o'r  
cyn-ddisgyblion, o bell ac agos,  
wedi cysylltu â ni i ddweud eu  
bod yn cdrych ymlaen yn  
eiddgar at y cyfarfod.

Bellach, gallwn ddweud yn  
bendant mai mewn rhan o  
babell Amgueddfa Lechi Cymru  
(gwaelod gwaith y chwarel gynt)  
am 2.00 o'r gloch bawn Iau y  
Steddfod y byddwn yn cyfarfod,  
ac yno tan 4.00 o'r gloch.  
Dywedwch wrth eraill am hyn  
os y gallwch.

Rydym yn ddyledus iawn i  
Dr Dafydd Roberts, Pennaeth  
yr Amgueddfa, a Haydn Lewis,  
cyn-ddisgybl ac o Frynrefail, am  
cu hacioni a'u parodrwydd i  
hwyluso ein trefniadau fel hyn.  
Diolchwn o waelod calon i  
chwi. Fe leolir Pabell yr  
Amgueddfa ar y maes, rhwng y  
Babell Lân a Phabell Cyngor Sir  
Gwynedd.

Dyma rifau ffôn y pwyllgor o  
bump:

Mair a Huw Gwynfa Roberts:  
(01286) 830655;

Owen Griffith: (01286) 674503;

Eifion Hughes: (01248) 410474;

Ifan Wyn: (01248) 722312.

## RHODDION

£11: Mrs O. Ebrell, Coventry.

£10: Mrs Laura Pritchard, 32  
Rhydfadog, Deiniolen; Mrs  
Bet Williams, Troslyn, Coed y  
Glyn, Llanberis

£5: Mrs Aileen M. Jones, 3 Y  
Bwthyn, Deiniolen; Dilys Mai  
Roberts, Yr Haciau,  
Llanberis; Er cof am Mr a Mrs  
H. Morris, 15 Rhos Rug,  
Llanrug; Alun a Ffion, Pistyll  
Cain, Ffordd yr Orsaf,  
Llanrug; Ian a Helen Parry,  
Bryn Ffynnon, Ffordd  
Fictoria, Caernarfon; Huw  
Tegid ac Eirian, Arwel,  
Llanrug; Wyn ac Iris  
Rowlands, Glan'rafon, Cwm y  
glo; Mrs Gwenlli Williams,  
Ardwyn, Waunfawr; Mrs B.  
Williams, Bishop Auckland.

£3: Mrs Glenys Jones, 1 Maes  
Padarn, Llanberis.

£2: Di-enw, Llanrug.

## Er cof am Ron, Hogia Llandegai

Cun oedd y llais bob caniad -  
denu'r graen,  
Dyna'r grefft yn wastad,  
Trin alaw fesul trawiad,  
Hoelio'i le yng nghanu gwlad.  
RLJ

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD  
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

## GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

## Am Offer Tŷ a Gardd...

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO



## CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL  
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYSW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



# JEAN ac ANTI JEAN

Roedd gan Jean a minnau rhywbeth arbennig i ymfalchïo ynddo: magwyd y ddwy ohonom yng ngesail Mynydd Rhiwen. Yno y treuliasom oriau blinedig yn hel llus ym Macs Meddygon, a hynny ym mhoethder Gorffennaf. Heibio i droed y mynydd y byddem yn ymlwybro, ar hyd lôn y Camp a gysylltai Rhiwas a Deiniolen. Arferai Jean ymweld yn gyson â Rhiwas gyda'i rhieni gan mai yno y magwyd ei mam. Yn Neiniolen y magwyd fy mam innau a chofiaf y boreau Iau, adeg gwyliau ysgol, pan awn i weld fy nhaid ac Anti Jennie, Deiniol Road, ar ôl bod yn siopa yn y Co-op.

Ymfalchiai'r ddwy ohonom yn y ffaith fod gwacod dau bentref annwyl, clôs a chyfoethog yn y 'Pethe', yn llifo drwy ein gwythiennau. Derbyniodd hithau, fel finnau yn 7 Stryd Uchaf, fagwraeth gyffredin ond un gyfoethog ei breintiau.

Amlygodd y gwerthoedd hyn a dderbyniodd yng ngesail gynnes aelwyd Blaencae yn fuan iawn yn ei bywyd llawn. Ymroi yn llwyr i weithio gyda phobl a phlant a wnaeth.

'Un a fu'n hoff o blant bychain, Ac yn gwyllo drostynt,' ydoedd a hynny drwy gydol ei gyrfa fel athrawes gydwybodol ac ymroddgar.

Bu'n ffyddlon i'w Christ a'i chapel, a

'Bu i eraill drwyddi hi Adnabod cariad Duw.'

Breintwyd cenedlaethau o blant Ysgol Sul lewyrchus Ebeneser ganddi. Mae'n rhaid meddu ar bersonoliaeth unigryw i blant eich galw yn Anti, ond dyna ydoedd Jean - Anti Jean - a hynny i aelodau Ysgol Sul Undebol Bosra, Penisarwaun, hefyd.

Arferai'r ddwy Ysgol Sul gyfarfod yn gyson yn Festri Capel Ebeneser i godi arian i Elusen Cymorth Cristnogol a byddai pawb yn edrych ymlaen yn ciddgar am forc o hwyl a chymdeithasu. Gyda Anti Jean wrth y llyw roedd Ysgol Sul yn hwyliog a difyr gyda nifer o weithgareddau, ac yna'r lluniacth ysgafn i goroni'r cyfan.

Anti Jean fyddai'n gofalu yn flynyddol fod swm anrhyddedus o arian yn cael ei godi drwy weithgareddau nodedig i liniaru bywyd y difreintiedig yn Kcny - addysg i blant a thapiau dŵr i bentrefi sychedig.

'Bu'n addfwyn wrth bawb o'r isel rai A hoff o wrando cwyn.'

Mae'n rhaid meddu ar ymroddiad llwyr a dyfalbarhad i drefnu amrywiol weithgareddau ar gyfer 'Sbri'r Ysgol Sul', a gynhelir gan Henaduriaeth Arfon. Ond, ar bnawn Sul tanbaid yng Ngorffennaf rhyw

dair blynedd yn ôl, fe fwynhaodd tua 90 o blant, o wahanol Ysgolion Sul, lu o weithgareddau o dan ofalaeth Anti Jean a'i chriw. Profwyd y Sul hwnnw fod Ysgol Sul yn gallu bod yn hwyl go iawn!

Bu'n llywyddu droeon yng Ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau, a hynny gydag urddas a thrylwyrdd.

Roedd ymddiddori yn y 'Pethe' yn hanfodol bwysig iddi a bu'n aelod amlwg o amryw o fudiadau yn ei bro ar hyd y blynyddoedd.

Bydd colli'r soprano ffyddlon a sicr ei nodau a'i geiriau, yn fwlch mawr i Gôr Clychau'r Grug, Llanrug. Câi bleser o ddiddori eraill yn yr amryfal gymdeithasau, cyngherddau, Cartrefi Henoed a Chymanfaoedd gyda'r côr, ac wrth gyflwyno ein diwylliant i ymwelwyr mewn gwesty yn Llanberis. Ymfalchiai

'Yn ein hiaith a'n gwlad,' gan 'Eu caru fwy a mwy,'

cans gwyddai

'Y pery popeth hardd, Tra paront hwy.'

Roedd Cymanfa yr Annibynwyr, Cylch Cwm y Glo a Deiniolen, yn agos iawn at ei chalon. Bu'n Drysorydd am flynyddoedd maith ac yn gaffaeliad cadarn ac amhrisiadwy yn y trefniadau. Byddai cyflwyniad Ysgol Sul Ebeneser yn gaboledig, a'r aelodau yn amlwg yn rhoi o'u gorau iddi. Yr un oedd ei chefnogaeth i Gymanfa'r Methodistiaid hefyd.

Cofiaf, gyda gwên, i un eneth fach benfelen fy nghyfarch fel, 'Anti Gymanfa', ond 'Arglwyddes y Gymanfa' oedd Anti Jean. O, oedd! Roedd bwlch enfawr yn y Gymanfa bnawn Sul, 22 Mai, a hynny yng Nghapel Ebeneser. Capel a elwodd yn fawr o'i gwasanaeth diflino.

Diflino fu ei hanes yn bwndelu'r Eco yn fisol am flynyddoedd hefyd, a hynny gyda gwên siriol ar ei hwyneb. Gwnaeth hynny yn ddirwgnach nes i'w hiechyd wanhau ddechrau'r flwyddyn hon.

Gwerthfawroga'r Bwrdd Golygyddol a Swyddogion Eco'r Wyddfa ei gwaith a'i chymwynas fawr. Wedi cystudd byr ond blin iawn collwyd un o golofnau'r fro.

'Yr hyn a allodd hon Hi a'i gwnaeth.'

Boed i minnau ddilyn ei hesiampl a 'mynd a gwneud y pethau bychain' a glywsom ac a welsom ganddi hi.

Estynnir y cydymdeimlad llwyraf â theulu Blaencae gan bawb yn y fro. O gcsail Mynydd Rhiwen, o glydweh ei chartref 'Cesail y Mynydd', gorffwysed yn orfoleddus yng ngesail Duw.

ANN

*Pryd i Bawb  
Buiffe blasus o safon  
at bob achlysur*

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

**CERID MACKINNON**

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD  
CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs:

(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**Ar Agor**

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

**Ar Gau**

Sul a Mercher

**GLANHAU CARPEDI  
GYDA STIMVAK**

**BWS BACH AR LOG**

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



**D. P. OWENS** RHIWLAS

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**  
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

**Swyddfa Etholaeth**

**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: [williamsgw@parliament.uk](mailto:williamsgw@parliament.uk)



## Briwsion Byd Natur

### Dafydd Guto



### Ys Gwn i Faint yw Oes Ambell Aderyn?

Mi alla i, hefo tipyn bach o bendantrwydd ddwced, yn hytrach brofi'n ddigamsyiol, oedran un ceiliog mwyalchen a hyd yn oed oedran Branwen, y *baunes*, sy'n byw yn yr un libart â ni yn fferm Neuadd Glasgoed. Yn bendant? Felly'n wir! Dal dy anadl am ennyd. Nid yn hollol chwaith!

Mwyalchen ydoedd hwn, a'i blu mewn mannau yn glytia gwynion. Nid albino mohono. Dyfynnaf o'm 'Dyddiadur Byd Natur' a'r cofnod cynta ynghylch yr aderyn nad oedd yn berffaith ddu ran lliw ei blu:

*Dydd Mercher. Tachwedd 20ain, 2002: Digwyddodd 15.10. Gwelld ceiliog mwyalchen hefo tipyn o wynder ar ei ben a'i adenydd tu cefn i'r hen blasdy yng Nglasgoed.*

Clandro symiau rwan. Ai cyw ceiliog mwyalchen a welwyd? Nage! Oedolyn ydoedd. Felly rhodder +1, sef union flwyddyn ran amser, a'i ychwanegu at Dachwedd 20ain, a'r flwyddyn 2001 fel man cychwyn yr aderyn, a hynny mewn nyth rhywle yng Nglasgoed. Ond ni wyddys y fangre nac awr ei eni. Mae'n dasg enbyd o anodd, bron yn ambhsoibl, dweud i sicrwydd union oedran aderyn.

Gwelwyd wedi hynny y *fwyalchen* glytiog wen, a hynny droeon ac yn y flwyddyn 20043

ceir nifer o gofnodion am yr aderyn, a'r mannau y'i gwelwyd.

2004: Mae'r *fwyalchen* hefo clytia' gwynion yn dair mlwydd oed. Yna'r cofnod ola hwn: *Dydd Mercher, Mai 26ain: ei weld am 7.55, wrthi'n pigo am bryfed ac yna 18.05 yn un o'r gerddi yn y Maes Carafanau. Ni welwyd mohono wedyn. 2001-2004. Er cof.*

Yn wir, ar yr un fferm cedwir olwg manwl ar *baunes*, sef Branwen. Un o dri chyw gwryw a dwy fenyw ydyw hi: felly roedd hi *Dydd Iau, Mehefin 20fed, y flwyddyn 2002. Collwyd Fronwen, ond y mae Branwen, yr unig baunes ar y fferm, yn dal yma, sy'n dangos ei bod eleni yn dair mlwydd oed.*

Fodd bynnag, y dull gorau o ddigon ydy modrwyo'r adar, a rhaid wrth drwyddedau arbennig os am gyflawni gwaith modrwy-wragedd, neu fodrwy-wyr. Y mae'r modrwyau ar goesau adar yn datgelu oedran a hyd yn oed y pellter y maent wedi ei hedfan er mwyn cael nythu, bwydo a magu cywion.

Meddyliwch mewn difri calon, aderyn drycin *Manaw* modrwyedig, yn y flwyddyn 2004, yn ymweld ag Ynys Enlli ac mi roedd yr aderyn nodedig hwn wedi ei ddal gyntaf, a'i fodrwyo, yn y flwyddyn 1957. Mi gewch chi weithio allan faint oedd ei oedran, 1957-2004 (ac yn dal ar dir y byw!) Ia'n wir! A hynny'n bendant hefyd.

## Byd a Bywyd Caradog Prichard – Bywgraffiad Darluniadol

J. Elwyn Hughes

Cyhoeddiadau Barddas, £9.95

Sut y cafodd hanes ei ailadrodd pan laddwyd John Pritchard yn Chwarel y Penrhyn, a'i fab, Caradog, ond ychydig fisoedd oed? A oedd bradwr yn Llwyn Onn, Bethesda, yn ystod Streic Fawr y Penrhyn? Beth oedd hanes y ddeiseb a oedd yn erfyn ar y Swyddfa Ryfel i beidio ag anfon Caradog i ryfel? Pwy anwyd yn Orlando? Wrth bwy y dywedodd Caradog: 'I'll love you till I die'? Pwy oedd y genod ym mywyd Caradog Prichard?

Dyna rai o'r cwestiynau y rhoddir sylw – ac atebion – iddyn nhw yn *Byd a Bywyd Caradog Prichard – Bywgraffiad Darluniadol*, cyfrol ddiweddaraf J. Elwyn Hughes sy'n olrhain hanes y bardd a'r nofelydd adnabyddus o Fethesda. Bu'n rhaid i'r awdur droi'n dditectif wrth ddilyn sawl trywydd a guddiwyd yn nhrefn y blynyddoedd ac fe ddatgelir am y tro cyntaf erioed rai cyfrinachau o'r gorffennol a fydd yn sicr o fod o ddiddordeb i bob llên-garwr. Yn wir, byddai Caradog Prichard ei hun wedi gwirioni'n lân o gael gwybod ambell ffaith 'newydd' a ddaeth i'r golwg wrth i J. Elwyn Hughes ddod o hyd i hanes rhai o'i berthnasau.

Mewn cyfrol o dros ddau gant o dudalennau, cawn hanes teulu, cefndir a bywyd Caradog Prichard yn Nyffryn Ogwen a hanes ei fywyd a'i waith wedi hynny mewn mannau megis Caernarfon, Dyffryn Conwy, Caerdydd, Llundain, a hyd yn oed yn yr India bell. Mae'r 175 o luniau, rhai ohonynt yn brin iawn, yn cyfoethogi stori bywyd a gyrfa'r bardd a'r llenor a'r newyddiadurwr pwysig hwn.

Yng ngeiriau'r Prifardd Alan Llwyd: 'Dyma lyfr gwych, dadlennol, difyr, diddorol a darllenadwy, a llawer iawn o hwyl a hiwmor (Caradog a'r awdur) ynddo'.

Brodor o Ddyffryn Ogwen yw J. Elwyn Hughes ac ef yw un brif

haneswyr lleol y fro honno, er ei fod yn byw ym Methel, Arfon, ers rhai blynyddoedd bellach. Ar ôl graddio mewn Astudiaethau Celtaidd ac ennill M.A. mewn Addysg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor, dychwelodd yn syth i'w hen ysgol (Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda) i fod yn Bennaeth yr Adran Gymraeg, wedyn yn Ddirprwy Brifathro ac yna'n Brifathro'r Ysgol. Yn 1988, penodwyd ef yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Astudiaethau Iaith, sefydliad a gyhoeddodd rai cannoedd o lyfrau ar gyfer ysgolion a cholegau Cymru ond a ddaeth i ben ei rawd gydag ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru yn 1996. Anrhyddeddwyd ef â'r Wisg Wen yn Eisteddfod Llanellwedd yn 1993 am ei gyfraniad i'r Gymraeg.

Ar wahân i olygu llaweroedd o gyfrolau, bu'n gyfrifol am gyhoeddi *Cyflwyno'r Cyfrifiadur* a'r pedwar llyfryn yn y gyfres ddwyieithog *Geiriau'r Newyddion / News-Speak*. Ef yw awdur *Moliannwn y Bardd o Fethesda, Chwarel y Penrhyn, Ddoe a Heddiw / The Penrhyn Quarry, Past and Present, Englynion Beddau Dyffryn Ogwen, Taith Lenyddol drwy Ddyffryn Ogwen, Canmlwyddiant Ysgol Dyffryn Ogwen, 1895-1995, Gair i Glaf – an English-Welsh Phrasebook for Health Care Professionals*, a'r gyfrol ysgolheigaidd ar Dan Isaac Davies, *Arloeswr Dwyieithedd*. Ef, hefyd, yw Golygydd *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* yr Eisteddfod Genedlaethol. Ei gyfraniad pennaf, mae'n debyg, o ran hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, yw *Canllawiau Iaith a Chymorth Sillafu* a argraffwyd gyntaf yn 1984. Cyhoeddwyd argraffiad diwygiedig yn 1998, yn cynnwys llawer iawn mwy o eiriau a chanllawiau, ac mae dros ddeugain mil o gopiau wedi eu gwerthu erbyn hyn. Cymar hwylus i'r *Canllawiau Iaith* yw'r gyfrol *Canllawiau Ysgrifennu* a gyhoeddwyd hefyd yn 1998.

## DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)

CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eeco



## GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNCHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMBOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanyllion am ein toltltau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333



# O SIAMBAR SELWYN

## Salm yr Hen Chwarelwr

Dyrchafaf fy llygaid i'r fan lle bu'r Ceiliog Mawr yn gwarchod hen sgerbwd o chwarel.

Lle dringodd ein tadau a'n teidiau yn nannedd drycinoedd, i naddu eu bara beunyddiol o grombil y graig.

Heddiw, mae rhwd ar y rheiliau, a mieri barus a fentrodd wreiddio ar lwybr-pen-doman.

A bellach ni ddaw tramp y 'sgidia' hoelion mawr i grafu'r wawr ar Bont-y-Bala.

'Segur yw'r cŷn a'r morthwyl'.

Cancrodd gwŷr y graig ym Mryn Seiont a Llangwyfan.

cyn i'r c'nebrynuau mawr

hebrwng cu gweddillion yn barchus, drist

i Fapela, Llanddeiniolen a'r Nant.

Ac yno ar gerrig gleision

fe gerfiwyd yn gynnil y dystiolaeth i'w haberth.

Heddiw, ar ddydd codi cardod,

daw dau neu dri o'r gweddill prin i'r 'Bull' a 'Dolbadarn'

i godi bys bach uwch sledeidia o atgofion.

Ac fe ddychwel tinc yr ebill a miri'r caban

i chwarae'n ddireidus ar gasetiau'r cof,

wrth sôn am Tin Pant, Hafod Wan a'r Gilfach Ddu.

Daeth dydd y Cyfri' Mawr.

Dyrchafaf fy llygaid i'r fan lle bu'r Ceiliog Mawr

yn gwarchod hen sgerbwd o chwarel,

cyn bod sôn am dwnelu'r dŵr o'r Marchlyn Mawr.

Prynhawn Sadwrn, 7 Mai, roeddwn i'n awyddus i fynd i ddau le: Capel Pencaenewydd i Gyfarfod Coffa y diweddar John Roberts Williams oedd un, a'r llall oedd i'r Allt Ddu i ddadorchuddio Cofeb y Chwarelwyr, a godwyd drwy ymdrechion Clwb Orwig a theuluoedd y cyn-chwarelwyr. Fel mab i chwarelwr, dyrchafu fy llygaid tua'r mynyddoedd wnes i.

Roedd o'n brynhawn cofiadwy, a hyfryd oedd gweld tyrfa dda wedi ymgynnull a chael cyfle i gwrdd â hen gyfeillion. Wna i ddim manylu, gan y bydd yna adroddiad llawn, o bosib, yn y rhifyn hwn o'r Eco. Diolch i chi, gyfeillion Dinorwig, am y croeso ac am y trefniadau.

\*\*\*

Yn dilyn y dadorchuddio yn Allt Ddu fe dreuliais noson ddifyr yn Eisteddfod Clynog - cisteddfod y bŵm i'n beirniadu ynddi droeon. Hyfryd oedd cael mynd yno fel gwrndawr a medru ymlacio i wrando ar y cystadlaethau. Mae yna dalentau ifainc o safon yn crwydro o 'Steddfod i Steddfod' y dyddiau hyn, ac mae'n bleser gwrandao arnynt. Yn wir mae yna rhyw hanner dwsin sy'n medru cynnal eisteddfod gyda'u hamrywiol dalentau. Mae rhai ohonyn nhw eisoes wedi ymddangos ar lwyfannau cenedlaethol, ac fe glywn ni am eraill ohonyn nhw yn y dyfodol agos.

Dwi wedi cael y cyfle i ddiolch yn bersonol iddyn nhw yn y gwahanol eisteddfodau lle rydw i wedi cael y fraind o'u beirniadu, ond fel yr awgrymais roedd hi'n bleser cael gwrandao arnynt nhw yng Nghlynnog, gan lwyf ymlacio heb bencel na phapur o'm blaen. Gredyn fod y gynulleidfa mor brin mewn ambell eisteddfod.

Mae'n hysgar ymweld ag

Eisteddfod yr Urdd unwaith eto. Bydd ymweld â'r Wyl yn brofiad gwahanol cieni, ac yn sicr o fod yn achlysur diddorol. Gobeithio yn wir y bydd yr arbrawf o'i chynnal yn adeilad moethus y milflwydd yn llwyddiannus. O leia, gallwn gysuro ein hunain na fydd mwd o dan draed, ac y byddwn yn glyd o dan do. Ond tybed a gollwn ni awyrgylch y maes yr ydym wedi bod mor gyfarwydd ag o dros y blynyddoedd, hyd yn oed pan oedd angen welingtons ac ymbarelos?

Os bydd yr arbrawf yn un llwyddiannus, pwy a ŵyr na chynhelir prifwyl gyffelyb pan ddaw'r Eisteddfod Genedlaethol i'r brifddinas yn y flwyddyn 2008, neu o bosib yn y flwyddyn 2007, os methwn â chael cartref iddi yn y gogledd!

Dwi'n hynod o falch bod cymaint o dalentau ifainc o Fro'r Eco wedi llwyddo i gyrraedd rhagbrofion y brifwyl yng Nghaerdydd. Pob llwyddiant i chi. Dwi'n naturiol yn falch bod yna rai cystadleuwyr y cefais i y fraind o'u hanfon ymlaen i'r Sir, wedi llwyddo i fynd ymlaen i Gaerdydd.

Fydda i ddim yn derbyn gwahoddiad cymaint i feirniadu yn eisteddfodau'r Urdd yn ystod y blynyddoedd diwetha' 'ma. Wrth fynd yn hŷn, yn naturiol dydi'r meddwl ddim yn gweithio mor gyflym, ac ni fynwn wneud cam ag unrhyw blentyn.

Pan oeddwn i'n dechrau beirniadu ac yn hollol ddibrofiad fe ges i wahoddiad i feirniadu mewn eisteddfod gylch yr Urdd. Bwrw 'mhrentisiaeth fel beirniad yr oeddwn i ar y pryd (ac rwy'n dal i ddysgu) a doeddwn i ddim yn barod o gwbl i ymgymryd â'r cyhoeddus a minnau mor ddibrofiad. Ceisiais egluro hyn ond yr ymateb oedd, 'Dowch yn ych blaen - Steddfod Cylch ydi

hi. Tydi hi ddim yn bwysig!'

Wel, gyda phob parch, yr eisteddfodau cylch ydi'r rhai pwysicaf. Ynddynt hwy y mae angen y beirniaid mwya craff a phrofiadol.

Mae gen i gof unwaith o gael 80 o blant dan wyth oed yn adrodd i mi mewn Eisteddfod Gylch. Dyna i chi gyfrifoldeb! Dewis tri allan o 80 i ymddangos ar y llwyfan a hefyd ysgrifennu beirniadaeth i bob un ohonyn nhw. Y teimlad rydach chi'n gael o orfod gwrandao ar gymaint o blant, un ar ôl y llall, ydi y carech chi gael ailwrandawriad ar tua hanner dwsin ohonyn nhw cyn dod i benderfyniad terfynol.

Ond fel y gŵyr pawb sy'n

ymwneud â threfniadau eisteddfodau'r Urdd, mae hyn yn gwbl amhosib, gan fod y plant mwya talentog yn cystadlu mewn sawl cystadleuaeth, ac yn mynd o un rhagbrawf i'r llall.

Dwi wedi crwydro tipyn y tro hwn, o'r Allt Ddu i Eisteddfod Clynog ac i Brifwyl yr Urdd yn y brifddinas. Gobeithio y cawn ni eisteddfod lwyddiannus a phob hwyl i gystadleuwyr Bro'r Eco.

\*\*\*

(Mae'r gerdd 'Salm yr hen Chwarelwr' a welir uchod, i'w chael yn y gyfrol **C'nafron a Cherddi Eraill** gan Selwyn Griffith, ac ar gael yn eich siopau llyfrau lleol.)

## Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

## R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr  
gan y bobl **BROFFESIYNOL**  
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**  
Y Gwasanaeth Technegol Gorau  
i'ch **CAR**. Cystal â  
Gwasanaeth Prif Ddeliwr  
Felly, pa gar bynnag ydych  
**CHWI** yn ei yrru,  
o Audi i Zastava

website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan  
Petrol neu Diesel  
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth  
ni yn arbed e e e ichwi  
ac yn ymestyn oes eich car

## AVW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



## ARVONIA

COACH TOURISM

cpt

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl trefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



V Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonias.co.uk

Gwefan: www.arvonias.co.uk



## ENGLYNION

### Morris D. Jones

(Glan Caledffrwd)

Cefais fenthg llyfryn o englynion y diweddar Morris D. Jones (Glan Caledffrwd), Llanrug. Llyfryn a gyhoeddwyd ym 1972, ac i fod yn onest, ni wyddwn am ei fodolaeth nes i'w berchennog, Wil McIntyre Hughes o Gaernarfon, roi ei fenthg i mi.

Gwyddwn, wrth reswm, am ddawn gynganeddol Morris D. gan iddo fod yn fardd Clwb Eryri, Llanberis, am flynyddocdd lawer.

Yn ei ragymadrodd mae'r Athro Thomas Parry yn cyfeirio at y ffaith i'r bardd adael yr ysgol yn dair ar ddeg oed a mynd i weithio i Chwarcel Dinorwig, nes i gyflwr ei iechyd ei orfodi i ddilyn galwedigaeth ysgafnach. Daeth yn gyfeillgar â gwyr llen yng Nghaernarfon, dynion fel Anthopos, Gwynfor a Meuryn ac eraill, ac yn sgil hynny yn dod yn gyfarwydd â'r gynghanedd. Roedd ef a'i ddiweddar briod yn adnabyddus iawn yn y fro am ddysgu corau adrodd gan ennill bum gwaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Fel y dywedodd yr Athro Thomas Parry, 'Er mai am unigolion y mae'n sôn, fe glywn rai gweithiau wrth ddarllen, ond i ni wrando'n ddigon craff, islais y profiadau sy'n rhan o gymdeithas dynion ym mhob cyfnod a gwlad a chyflwr.'

Yn bersonol cefais gryn fwynhad o ddarllen ei waith, a chan iddo gyfansoddi englynion i nifer o wŷr ardal Eco'r Wyddfa ym mhedwar a phumdegau'r ganrif o'r blaen, (cyn bod yr Eco, wrth gwrs) efallai y carai eraill sydd yn ei gofio hefyd fwynhau ei ddawn. Dyma rai ohonynt:

**Richard Jones, Prifathro Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen**

O Ddeiniolen daw heno - ŵr hudol  
A siaradwr effro,  
Iaith hwn a'i wybodaeth o  
A ddwg orig ddiguro.

**Selwyn Griffith, Bethel (ar y pryd yn amwch ar 'Hen Eisteddfodau')**  
I fyd yr eisteddfodau - yn hwylus

Dwg Selwyn yr hogiau;  
A chawn yn wir hir fwynhau  
Hynt a helynt hen wyliau.

**Parchedig Meirion Lloyd Davies**  
(Caveinidog yn Llanberis ar y pryd)

Un difyr ydyw Davies - a hudol  
Weinidog Llanberis.

Mae'n ŵr glaw, ac o'i ddewis  
Oriau mwyn geir ddechrau'r mis.

**Dafydd Parry, Llanberis**  
(Un trafod 'Chwarcel Dinorwig')

I chwarcel y chwarcel - yn union  
Yr awn gyda Parry;

Er llwch ac oerni'r llechi  
Pe ddaw lles o'i hanes hi.

**William Jones, Eirianfa, Cwmyglo**  
(gŵr hynod werithgar yn ei fro)

Yn ei Gwm un pur ei gamau - ydoedd  
Nodedig ei ddoniau;  
Fore a hwyr heb lwfrhau  
I eraill gwnâi ei orau.

**R. Lloyd Roberts (Ffrwd Alaw)**  
**Brynrefail** (cerddor a adnabyddid gan barwb fel Bob Lloyd)

Ffrwd Alaw, deffry'i delyn - ogoniant  
I ganu pob emyn;  
Gwledd seinber ar offeryn  
A rydd ef i'r broydd hyn.

Byw ei law fu Bob Lloyd - i arwain  
Holl gorau bro'i faboed;  
Yn fwyn iawn ar fin henoed  
Alaw a rydd fel arioed.

**I'r Cynghorydd D. M. Pritchard,**  
**Llanrug** (un o enwogion y fro yn ogystal)

Ow! isel wyf dan locs lwm - o hiracth  
Am gynghorydd mwyndrem,  
Cyfaill hawddgar a gareu  
A hynod ŵr oedd D.M.

**Y Dr John Roberts, Llanberis**  
(meddyg yr ardal am flynyddocdd)

Rhocs hwn ei lwyr wasanaeth - i wella  
Archollion dynoliaeth;  
Mor swynol yw'r dystiolaeth  
Tŵr a ffrind fu'r doctor ffraeth.

**Prysgol, Caeathro** (cartref yr enwog  
William Owen, awdur sawl tŷn, gan  
gynnwys 'Bryn Calfaria')

Llys cerddor o'n gororau - ac yma  
Caed gem i'n Llyfr Tonau,  
I oes arall trysorau  
Yw muriau hwn i'w mawrhau.

Yn firain 'Bryn Calfaria' - a ganwyd  
Mewn gogoniant yma;  
A'r fan hoff sy'n dŵr coffa  
I ŵr doeth a cherddor da.

**Llys Dinorwig, Brynrefail**  
I filoedd ei adfeilion - a sieryd

Am amseroedd creulon,  
Ond trig i bendifigion  
Garai hedd, fu'r fangre hon.

**Marchlyn** (ar lethrau'r Eilidr)

Ar dir Elidir lydan - yn eigion  
Unigedd mae'i lwyfan;  
A rhydd ei glws ddyfroedd glân  
Iach win o lannerch anian.

ROL WILLIAMS

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

**Blodau  
Racca**

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silo
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

RHODD O'R GALON YW BLODAU

## O'R CYNGOR

Dyma flwyddyn arall wedi mynd heibio ac mae'n bleser cael adrodd fod gwaith i godi safon gweledd yr ardal yn symud ymlaen, ond ar adegau mae'n anodd credu fod cymaint o rwystredigaethau i'w goresgyn cyn cael cynllun ar waith.

Cynllun sy'n dod i feddwl yn syth yw'r cynllun rwyf wedi ceisio cael y Cyngor i symud arno ers bron i bedair blynedd, sef cael llwybr troed ar ymyl y ffordd o'r pentref i Erw Bian, Mae'r cynllun yma nawr wedi ei gostio, a dyluniad wedi ei wneud. Mae'r gost dros £50,000 ac rwyn wir obethiol y bydd yn bosib symud ymlaen cyn gynted â bod modd.

Yn sgil y gwaith yma bydd yn bosib wedyn pwyso i gael gostwng cyflymdra traffig ar y rhan yma o'r ffordd i 40 milltir yr awr.

Mater sy'n achosi cryn boen a phryder mewn rhai mannau o'r pentref yn ddiweddar yw'r broblem o ddŵr yn gorlifo oherwydd glaw trwm. Yn ystod Hydref '04 fe ddiodeffodd nifer o gartrefi'r pentref lanstr ofnadwy drwy lifogydd, nid yn unig dŵr, ond carthffos mewn rhai mannau. Er fod peth gwaith wedi ei wneud i uwchraddio'r system garthffos, mae'n amlwg fod broblemau dwys yn parhau.

Rwyf wedi cael trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor ac mae archwiliad o'r system garthffos a draenio dŵr nawr ar y gweill. Adroddaf ar y canlyniadau pan ddônt i law.

Fel y cofiwch fe ddosbarthwyd holiaduron yn ardal Saron a Bro Rhos / Bro Eglwys, i gael barn ar beth fuasai'n addas a derbynol i geisio rheoli tipyn ar gyflymdra a llif traffig o amgylch y rhannau yma o'r pentref. Er bod y Cyngor wedi rhoi cyfrifydd ger y neuadd ac ym Mro Rhos, nid yw'r dystiolaeth yn dangos fod goryrru yn broblem - anodd credu, ond dyna'r ateb swyddogol a dderbyniais. Felly rhaid dal ati.

Dyma beth sydd ar y gweill cyn belled ac y mae ceir ac ati yn y cwestiwn.

Mae parcio yn broblem barhaus yn ein mysg, yn enwedig yn ardal Saron. Mae'n anffodus ei bod yn angenrheidiol cael rhyw fath o waharddiad mewn mannau, yn enwedig yn agos i gyffyrdd, oherwydd yr anawsterau mae parcio mewn mannau fel hyn yn achosi i fwyafreif y trigolion a hefyd i

gerbydau argyfwng, pe byddent eisiau cael mynediad. Felly, yn Saron, mae gwaith dylunio ar osod system o sgwariau melyn 'dim parcio' wedi dechrau, a bydd y gosodiad ar gyffordd Stryd Ganol a Stryd Bach, ger Penlon.

Mae'r gwaith o roi llinellau melyn yn barod wedi ei gwblhau ger Capel Bethel, ac mae gwaith tebyg i'w wneud ar gyffordd Bro Rhos a Bro Rhos / Bro Eglwys yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r gwaith yma yn hanfodol bwysig o ran diogelwch o flaen yr ysgol. Mae un plentyn yn barod wedi cael ei tharo gan gerbyd, nid oes eisiau digwyddiad o'r fath eto.

Un o'r mannau ble mae nifer o ddamweiniau'n digwydd yw ar y tro ger Pont Charlie. Mae troeon lawer ble mae ceir wedi gorffen i fyny ar ben wal neu yng nghae Llwyn Bedw. Mae arwyddion nawr wedi eu gosod i godi ymwybyddiaeth o hyn.

Yn dal gyda'r traffig - bydd bariau diogelwch yn cael eu gosod ar y pafin ger y fynedfa i'r llwybr troed sy'n arwain o Fro Rhos i Fro Eglwys. Hefyd bydd marciau codi ymwybyddiaeth yn cael eu gosod ar y ffordd.

O bosib, y broblem fwyaf yn wynebu ein pobl ifanc yw ceisio sefydlu aelwydydd yn eu bröydd genedigol. Mae prisiau tai allan o pob rheswm ac allan o gyrraedd y rhan fwyaf. Mae angen gwneud rhywbeth ar frys i geisio lleddfu peth o'r broblem ac mae adroddiad 'Cynllun Tai Fforddiadwy' wedi ei drafod gan Bwyllgor Amgylchedd y Cyngor ar 17 Mai. Yn fyr, os caiff sêl bendith y Cynulliad yna mi fydd yn bosib i ddynodi tir ble bydd trigolion y fro yn gallu unai prynu neu adeiladu cartrefi am bris rhesymol. Bydd cyfyngiadau wrth gwrs ar pwy sy'n gymwys, ond y gobaith yw y bydd ein pobl ifanc yn gallu sefydlu yn lleol.

Gan fod hwn yn fater mor bwysig at gynnal ein cymunedau at y dyfodol rwyf wedi gofyn i swyddogion y Cyngor baratoi crynonddeb o'r cynllun at sylw darllenwyr ein papurau bro.

Yn yr wythnosau i ddod byddaf yn cynnal cymorthfeydd yn Seion a Bethel.

Yn y cyfamser Cysylltwch â mi ar (01248) 670 666 neu drwy e-bost [huw.hughes@lineone.net](mailto:huw.hughes@lineone.net)

HUW PRICE HUGHES  
Cynghorydd Plaid Cymru  
Bethel a Seion

## R. L. DAVIES

Coed Boly Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnall diggers bychain  
ac excavators 360° newyddau llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safloedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300 neu (07775) 638620



## BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CYMDEITHAS LENYDDOL. I ddiwedd gwewithgareddau am y tymor yma bu nifer o'r aelodau ar daith ddigol o gwmpas Ynys Môn. Roedd y tywydd yn hynod o braf a phob math yn edrych yn hardd iawn. Diwedd y daith oedd Gwesty'r Victoria, Porthaethwy, ac yno cafwyd pryd o fwyd blasus iawn. Wrth groesau pawb ynghyd, diolchoidd Jenkin Griffiths i Nora Parry a Sheila Roberts am ofalu am drefniadau'r noson, ac i Maud Williams am drefnu'r baned yn y cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn. Enillwyd y raffl oedd Gwyneth Price: rhodd gan y Cynghorydd Huw Hughes; Mair Jones: Hylif bath; Margaret Williams: Siocledi; Maud Williams: gwin.

### EISTEDDFOD ERYRI A'R

#### CYFFINIAU

Mae dwy weithgaredd ar ôl cyn cau pen y mwddwl ar ymdrechion clodwiw yr ardal i godi arian. Ar nos Fercher, Mehefin 22, bydd y gystadleuaeth flynyddol pêl-droed 6-bob-ochr i oedolion (dros 16), ar Ffôn Good Belyn, Gost cystadlu yw £10 y tîm, a gofynnir i'r tîmau roi gwybod i RLJ erbyn Mehefin 15.

I gloi y gweithgareddau, cynhelir Noson Lawen gyda thalentau lleol yn y Neuadd Goffa ar nos Wener, Mehefin 24. Gobeithir cyhoeddi y cyfanswm terfynol ar y noson.

CLWB BRO BETHEL. Gyda nifer o aelodau yn bresennol croesawyd y gŵr gwadd i gyfarfod mis Mai gan y Llywydd, Goronwy Jones, a chafwyd sgwrs ddifys a chartrefol gan Alwyn Jones, Caeathro.

Oherwydd natur ei broffesiwn bu'n byw ac yn gweithio mewn nifer fawr o lefydd, gan gynnwys Bethel yn nechrau'r saithdegau. Bu'n sgwrsio am ei fagwraeth yn Nyffryn Nantlle a soniodd hefyd am nifer o gymeriadau a oedd wedi creu argraff arno dros y blynyddoedd, ac yntau wedi elwa o'u hadnabod.

Gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf dymunwyd yn dda i'r Prifardd Selwyn Griffith sydd ar fin cychwyn ei dymor fel Archdderwydd Gorsedd y Beirdd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

I Gaer y bydd y trip yn mynd eleni a hynny ar 7 Mehefin. Pawb i roi gwybod i Elizabeth Evans neu Megan Humphreys os yr hoffech fynd ar y trip, sydd hefyd yn agored i rai nad ydynt yn aelodau o'r Clwb.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 11 Mai, cafwyd awyranod gwahanol iawn i'r arfer. Gwahoddwyd Bet a Seiriol i fynd â'r aelodau ar daith gerdded o gwmpas ardal Bethel. Gawsom dywydd ffafriol a chychwynnodd criw go dda o gerddwyr y tu allan i Capel y Cysegr. Ar ôl taith o gerdded dygyn am badair milltir, roedd yn braf iawn cael paned a sgwrs yn festr i'r Capel.

Diolchwyd i Bet a Seiriol yn wreiddig iawn ar ran y gangen gan Rhian am dywys y cerddwyr o amgylch y lonydd a'r caeau, a hefyd diolchwyd i'r merched fu'n gyfrifol am y baned dderbyniol

iawn ar ôl yr holl gerdded.

Ar ddiwedd y cyfarfod, atgoffwyd yr aelodau gan Rhian am y Noson Celf a Chrefft yn Neuadd Goffa Bethel nos Wener, 20 Mai, am 7.30.

Llongyfarchwyd Manon Elwyn ar ennill y darian o dan 12 oed yng Nghystadlaethau Bandiau Pres Gogledd Cymru ym mis Ebrill a hefyd llongyfarchwyd Siôn Garth ar ennill yr ail wobwr yn ei gystadleuaeth ef o dan 16 oed.

Enillwyd y raffl gan Eirlys Sharpe. Atgoffwyd yr aelodau fod y gangen wedi trefnu taith i Nant Gwrtheyrn y mis nesaf - enwau i Deilwen neu Mair cyn gynted ag y bo modd, os gwelwch yn dda.

ADRAN YR URDD. Bu Grŵp Offerynnol yr Adran, dan arweiniad Glenys Griffiths, yn perfformio mewn cyngerdd yng Nghapel Salem, Caernarfon ar 21 Ebrill. Trefnwyd y cyngerdd gan Gôr Waunfawr i godi arian tuag at Tŷ Gobaith. Diolch i Gôr Waunfawr am roi'r cyfle iddynt berfformio mewn cyngerdd mor arbennig. Diolch hefyd i'r offerynnwyr talentog ac i Anti Glenys am eu hyfforddi.

Wedi ennill twrnament rygbi Eryri aeth tîm rygbi'r Adran i lawr i Lanelli i gystadlu yn y Twrnament Cenedlaethol ar ddydd Sadwrn, 23 Ebrill. Fe lwyddodd y tîm i ennill eu grŵp a chael cyfle i chwarae yn y rownd gyn-derfynol. Yn anffodus colli o drwyth blewyn oedd eu hanes ond roedd eu hyfforddwyr, Eifion a Gwyn, yn ogystal â'r rhieni yn falch iawn o'u perfformiad. Da iawn chi, hogia. Dwi'n siŵr eich bod wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Ar nos Fawrth, 26 Ebrill, aeth y tîm pêl-droed i gystadlu mewn twrnament yn Nhreborth, Bangor. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda gan gofio fod y rhan fwyaf o'r aelodau wedi bod i lawr yn Llanelli dridiau ynghynt yn chwarae rygbi, ac wedi bod mewn twrnament rygbi ysgolion ar y dydd Llun. Diolch i Maldwyn ac Andy am eu hyfforddi.

Aeth tua 15 o blant i gystadleuaeth Rhedeg Traws Gwlad yn y Faenol ar nos Fercher, 26 Ebrill. Llwyddodd pawb i orffen y ras mewn amser da a llongyfarchiadau i Einir Evans, Blwyddyn 6, ar ddod yn ail yn ei ras hi. Tipyn o gamp gan fod tua 60 yn cystadlu ymhob ras. Da iawn chi, blant. Yr un noson roedd sesiwn o rowndari ar gae'r ysgol dan ofal Anti Llinoe i'r rhai nad oedd am fentro i'r traws gwlad.

Cafwyd noson o fabolgampau ar gae'r ysgol ar nos Fercher, 10 Mai. Roedd hwn yn gyfle i ddewis plant i gynrychioli'r Adran ym Mabolgampau'r Urdd ym mis Mehefin.

I ddiwedd y flwyddyn hynod o brysur cafwyd Noson Goffi ac adloniant gan blant yr Adran ar nos Fercher, 25 Mai.

Mae plant blwyddyn 4, 5 a 6 wedi bod yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod yn ystod y mis. Pob lwy i holl aelodau'r Adran yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolch i Deilwen Hughes, Ruth Lloyd, Huw

Jones a Manon Gwynedd am hyfforddi'r plant. Cawn fwy o'u hanes yn y rhifyn nesaf.

Dymuniadau gorau i holl aelodau a chyn-aelodau'r Uwch Adran fydd yn cystadlu yng Nghaerdydd.

CYMANFA YSGOLION SUL CYLCH PADARN. Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris bawn a nos Sul, 1 Mai 2005. Arweinydd y gân oedd Mr Edward Morris Jones, Llandegfan ac yn cyfeilio roedd Mr Gareth Jones a Mrs Bethan Holding, Capel Coch. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol yn y prawn gan Ysgol Sul Deiniolen, a'r hwyr gan y bobl ifanc.

Bu'r canlynol yn llwyddianus yn y maes llatur:

**Dan 4 oed:** Gwenllian Griffiths, Elan Jones, Elin Angharad Jones, Cysegr; Glain Meleri Hughes, Deiniolen; Aled Pritchard, Ben Rowlands, Iolo Llywelyn Roberts, Sara Henderson, Eban Peris Jones, Jessica Williams, Capel Coch.

**Dan 5 oed:** Alaw Eleri Henderson, Aron Gwynant Jones, Ffion Williams, Capel Coch; Gwenllian Lois Morris, Elen Haf Gwyn Ifans, Tomos Evans, Cysegr; Gerwyn Llwyd Jones, Prys Wyn Hughes, Deiniolen

**Dan 6 oed:** Megan Pritchard, Elin Roberts, Capel Coch; Dylan Harri Gwyn Evans, Gwion Wyn Jones, Lisa Haf Hughes, Heledd Alaw Morris, Aron Gwyn Jones, Cysegr; Bethan Tong, Deiniolen

**Dan 7 oed:** Lois Angharad Williams, Catrin Williams, Capel Coch; Gethin Wyn Harper, Alaw Prys Huws, Cysegr; Steffan Robin Jones, Catrin Llywelyn Griffith, Emma Tong, Deiniolen

**Dan 8 oed:** Amanda Williams, Gareth Pritchard, Capel Coch; Elliw Geraint Hughes, Llyr Garmon Jones, Catrin Ellen Jones, Alice Williams, Deiniolen; Mari Tachwedd, Cysegr

**Dan 9 oed:** Elin Tomos, Kimbereley Jones, Lowri Jones, Kate Pritchard, Nathan Desmond, Capel Coch; Iolo Rhys Hughes, Guto Sion Griffiths, Iwan Huw Harper, Cysegr

**Dan 10 oed:** Tudur Williams, Dylan Roberts, Aimi Williams, Deiniolen;

**Dan 11 oed:** Gethin Wyn Griffiths, Cysegr

**Oedolion:** Miss Dilys Mai Roberts, Mrs Falmi Pritchard a Mr Gareth Jones, Capel Coch. Mrs Nancy Williams, Mrs Elizabeth E. Evans, Mrs Nora Parry, Mrs Edwina Morris a Iwan Morris, Cysegr; Mrs Margaret Cynfi Griffith a Miss Marian Jones, Cefnywaun.

Capai'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Capel Cefnywaun, Deiniolen am ymgymryd â'r Gymanfa ac i swyddogion ac aelodau Capel Rehoboth, Nant Peris am ganiatáu i ddefnyddio eu capel i gynnal y Gymanfa, ac am eu croeso. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y ddau gyfarfod. Diolch arbennig i Mr Edward Morris Jones am arwain y Gymanfa ac i Mr Gareth Jones a Mrs Bethan Holding am gyfeilio. Hefyd gwerthfawrogi cyfraniad y Parch John Pritchard a Mrs Marian Jones fu'n llywyddu'r cyfarfodydd.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

**YSWIRIO EICH Tŷ**  
(i arbed colled i chi);

**YSWIRIO EICH CAR**  
(i arbed colled i chi); neu

**YSWIRIO EICH BYWYD**  
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

**Andre (Bethel/Llanberis)**

**Bryn (Môn)**

**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**


**John Elfion (Penisarwaun)**

## CDH

Ymgynghorwyr Ariannol  
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

**Ffôn: (01248) 355055**


**Gwasanaeth  
Gwallt  
Symudol  
Gwen**



*Gostyngiad i'r  
henoed*

Ffôn:

**07919977592**



## GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:  
Gatiau, Ffensus ac ati  
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon  
LLANRUG**

**Ffôn: (01286) 674183  
(0589) 899901**

**GWASANAETH LLEOL AR CYFER**  
PARTIÖN • PRIODASAU  
PEN-BLYYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

## RHOSTIO MOCHYN

AR CYFER  
POB ACHLYSUR

\* Cig o ffermydd lleol

\* Partiön rhwng 40 a 400!

\* Gyda saws afal a stwffin mewn  
rholiau

\* Efo salad hefyd os dymunwch

**DEWCS, MAE O'N FLASUS!**

Cysylltwch â

**JOHN BRYNAFON**

**LLANRUG**

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718788

wefan: www.ydyncig.co.uk



## DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292



Andrew Griffith a John Ellis Morris yn sefyll wrth Gofeb y Chwarelwyr.

**MARWOLAETH.** Brawychwyd yr ardal nos Fercher, 4 Mai, pan ddaeth y newydd trist am farwolaeth sydyn Owain Gwion Jones, 6 Maes Eilian, ac yntau ond 32 mlwydd oed. Yr wyf yn sicr ein bod fel ardal yn cydymdeimlo â'i gymar, Llinos, a'i fab bach, Owain Wyn, hefyd â'i dad a'i fam, Mr a Mrs Humphrey Jones, Caeau Gleision, Rhiwlas. Boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod yr oriau tywyll yma. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Ebeneser ar 12 Mai a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym Mynwent Pentir.

**CYFARFOD PREGETHU SARDIS.** Erbyn y daw Eco'r Wyddfa o'r Wasg bydd cyfarfodydd pregethu'r Sulgwyn wedi eu cynnal yn Sardis. Y pregethwr gwadd yno eleni oedd y Parchedig T. R. Jones, Aberteifi. Oherwydd salwch y gweinidog, y Parch Olaf Davies, llywyddwyd yn y cyrddau gan un o blant Sardis, sef y Parch William J. Lewis, Llanfairpwll. Mae'r gweinidog wedi cael anhwylder ar y llais ac wedi methu â phregethu ers tri mis, ond da deall ei fod yn gwella ac yn gobeithio bod yn ôl wrth y gwaith erbyn y mis nesaf. Pob dymuniad da iddo.

**DADORCHUDDIO COFEB Y CHWARELWYR.** Fe hir gofir am Sadwrn, 7 Mai, yma yn Dinorwig, pan heidiodd y tyrfaoedd i'r Allt Ddu i fod yn rhan o seremoni dadorchuddio Cofeb i'r

Chwarelwyr. Vno hefyd oedd Seindorf Arian Deiniolen, o dan arweiniad un o fechgyn yr ardal, sef Hefin Goronwy Jones, i osod y dorf yn y cywair priodol trwy chwarae nifer o alawon adnabyddus.

Cyflwynwyd y rhai oedd i gymryd rhan yn y gwasanaeth gan Lywydd Clwb Orwig, John Cantrell. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r dyrfa am gefnogi'r fenter mor hael.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan fechgyn o'r ardal, sef y Parchedig Tudur Rowlands, William J. Lewis, Idris Thomas ac Alan Wyn Roberts, a oedd wedi cyfansoddi'r emyn olaf yn un swydd ar gyfer yr achlysur ac fe ganodd Evan Bryn Roberts ddau o'r penillion. Darllenwyd englyn o'i eiddo, sydd ar y gofeb, gan Norman Closs Parry ac yna cyflwynwyd dau gyn-chwarelwyr Andrew Griffith a John Ellis Morris, oedd i gyflawni'r dadorchuddio. Roedd gweld y ddau hynafgwr yn sefyll yn dwyn deigrin i'r llygaid wrth gofio'r cannoedd o rai tebyg iddynt a weithiodd yn Chwarel Dinorwig o 1788 i 1969. Diweddwyd trwy gyd-ganu'r Anthem Genedlaethol.

Heidiodd mwyaftrif y dorf ymlaen i'r Ganolfan am luniaeth ysgafn a chyfle i weld yr Arddangosfa o luniau chwarelwyr o waith Gwilym Williams. Ef hefyd a luniodd y Gofeb.



Rhan o'r olygfa yn yr Allt Ddu ar bnawn Sadwrn y dadorchuddio.

Daeth nifer o'r ardal â lluniau a llyfrau o'u heiddo hwythau yno i'w dangos, a mawr fu'r chwilio am wynebau cyfarwydd a theulu yn eu mysg.

Ond yn bwysicach na'r cyfan oedd cyfarfod â hen gydnabod a chyfeillion nas gwelwyd ers blyneddau ac a roddodd flas ar y dod a phawb at ei gilydd. Yr oedd rhai wedi teithio'n bell i fod yn y cyfarfod, o dde Cymru, o ogledd Lloegr ac o Ganada. Un awgrym a gafwyd ar ôl yr achlysur oedd y buasai'n braf cael Aduniad o'r rhai fu'n ddisgyblion yn Ysgol Dinorwig. Beth amdani?

Y siaradwr gwadd yn y Ganolfan oedd yr Aelod Seneddol, oedd wedi ei ailthol i'w swydd ddiwrnod ynghynt, sef Mr Hywel Williams. Diolchodd am gael bod yn rhan o'r dathlu. Dyna a ddywedai pawb arall a fu yno hefyd.

Bu'n ddydd o goffâd teilwng i holl chwarelwyr Dinorwig.

Diolch i bawb a gefnogodd yr achlysur ymhob ffordd trwy'r rhoddion a dderbyniwyd a thrwy'r help mawr a gafwyd ar y diwrnod ei hun gan lawer un.

**YN YR YSBYTY.** Mae'n ddrwg gennym ddeall for Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, yn Ysbyty Gwynedd ar ôl iddi syrthio yn y tŷ. Rwyf yn sicr ein bod yn dymuno gwellhad buan iddi a gobeithio y cawn ei gweld adref yn reit fuan. Brysiwch wella, Mrs Thomas, yr ydym yn eich colli.

**LONGYFARCHIADAU** mawr i Thomas Derek Humphreys, 7 oed, Gwêl y Wyddfa, ar ennill belt oren hefo Karate ym Modedern yn ddiweddar. Da iawn, Thomas. Dal ati, mae Taid a Nain yn falch iawn ohonot.



**ORIEL  
CWM  
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

**Wavell  
Roberts**

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!



Andrew ac Alice Griffith yn torri'r gacen. Diolch yn fawr iawn i Selwyn Morris, Becws Cwm-y-glo, am y rhodd o'r gacen.

**Gwesty  
Dolbadarn**

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



# CHWILOTA

## Llymeitian a Lladrata yng Nghlwt y Bont



**M**ae casgliad enfawr o gofnodion yn ymwneud â Llysoedd y Chwarter Sesiwn ar gadw yn yr Archifdy yng Nghaernarfon. Yn anffodus nid yw'r cyfan ohonynt wedi eu catalogio, a bydd yn rhaid disgwyl nifer o flynyddoedd mae'n siŵr cyn cael catalog gogyfer â phob blwyddyn. Diddorol yw dewis ambell flywyddyn o'r cofnodion sydd eisoes wedi eu catalogio, a phori drwyddyn i weld beth oedd y troseddau a gâi sylw yn yr oes a fu.

Yn ystod y flywyddyn 1831 roedd amryw o achosion yn ymwneud ag unigolion o ardal Clwt y Bont, a rhai enwau yn ymddangos mewn mwy nag un achos. Byddai papurau lleol y cyfnod hwnnw wedi cael digon o ddeunydd i lenwi eu tudalennau gyda'r holl hanesion; felly, dyma grynhoi rhai o'r hanesion rheini heb ofni enwi unrhyw unigolyn!

Roedd yr achosion cyntaf yn perthyn i fis Ebrill 1831, pan gafwyd Elizabeth, gwraig Robert Williams, chwarelwr o'r Llys, Llanddeiniolen, yn euog o ymosod ar a churo Elizabeth Jones, Brynrefail. Cafodd ddirwy o swllt a gorfu iddi dalu deg swllt o iawndal i'w chymdoges. Tybed beth oedd achos y gurfâ?

### Dwyn coed i godi tŷ

Yn yr un mis daethpwyd ag achos o ladrata yn erbyn David Owen, labrwr o Landdeiniolen. Saer maen o'r enw William Jones oedd wedi dwyn yr achos gerbron y Llys, a'r cyhuddiad oedd fod David Owen wedi dwyn coed oddi arno er mwyn adeiladu tŷ yng Nghlwt y Bont. Galwyd nifer helaeth o dystion i'r Llys ar gyfer yr achos, ac mae'n anodd credu fod cymaint o gostau wedi eu gwario i alw tystion oedd yn gallu gwahaniaethu rhwng un darn o bren a'r llall, oherwydd roedd y darn pren yn cael ei arddangos yn y Llys er mwyn i'r gwahanol dystion ddatgan pwy yn union oedd ei berchennog.

Roedd Robert Evans, saer coed o Bentir, yn honni iddo werthu nifer o ddarnau pren i David Owen, a oedd yn bwriadu eu defnyddio i adeiladu tŷ yng Nghlwt y Bont. Ond, aeth ar ei lw i ddatgan nad y darn pren yn y

Llys oedd un o'r darnau a brynod David Owen ganddo. Galwyd hefyd ar David Roberts o Gaernarfon. Roedd ef wedi gwerthu darnau pren i Elizabeth, gwraig David Owen, ond ni allai ddweud a oedd y darn pren yn y Llys yn un ohonynt.

Honnai Daniel Hughes, Penpwlloch, Penisa'rwaen, mai'r darn pren oedd un a lifiodd yn arbennig i William Price, saer coed, a oedd hefyd yn adeiladu tŷ yng Nghlwt y Bont. Clywodd David Owen yn dweud iddo brynu'r darn pren hwnnw gan Robert Prichard, Tyddyn Elan, Llanrug. Ond honnai William Jones, y saer maen a ddaeth â'r achos gwreiddiol, mai ei ciddo ef oedd y pren, ac ymddangosodd William Williams, Racca, i gadarnhau hynny. Tystiai William Jones ei fod yn adeiladu tai yng Nghlwt y Bont, ac iddo weld y pren a gafodd ei ddwyn wedi ei osod yn nhŷ David Owen.

Wedi'r holl ddadleuon hyn, cafwyd David Owen yn euog o ddwyn, ac fe'i dedfrydwyd i fis o garchar gyda llafur caled.

Dengys yr achos hwn fod cryn dipyn o waith adeiladu yn mynd ymlaen yn ardal Clwt y Bont ar y pryd. Roedd y chwarelwr ar gynnydd, ac angen i'r gweithwyr fod yn byw'n weddol agos ati. William Jones, y saer maen o'r Bwlch Ucha, oedd un o'r adeiladwyr a oedd yn gyfrifol am godi tai yng Nghlwt y Bont, ond mae'n amlwg fod eraill - labrwr cyffredin fel David Owen - yn gyfrifol am godi eu tai eu hunain er mwyn arbed cost. Yn anffodus aeth ymdrech David Owen i arbed costau yn rhy cithafol, gan iddo ddwyn darn o bren oddi ar y

saer maen, a threuliodd fis yng ngharchar Caernarfon am ei drafferthion!

### Gwerthu cwrw'n anghyfreithlon

Yn ddiweddarach yn yr un flywyddyn cafwyd achosion unwaith eto o Glwt y Bont. Ymddangosodd Lewis Jeremiah Williams o'r King's Head Tavern o flaen ei well ar gyhuddiad o werthu cwrw a chaniatáu i gwrw gael ei yfed rhwng deg o'r gloch y bore a phedwar o'r gloch y pñawn. Mae'n bosib fod rhai o'r gweithwyr oedd yn adeiladu tai yng Nghlwt y Bont yn bur sychedig!

O fewn mis roedd tafarnwr arall o Glwt y Bont yn y Llys, a hynny am iddo werthu cwrw rhwng tri a phump o'r gloch ar bñawn Sul. William Roberts oedd y tafarnwr hwnnw, ond ni chaiff y dafarn ei henwi.

Roedd hi'n amlwg fod Clwt y Bont yn lle go gynhyrfus i fyw ynddo bryd hynny.

Ond roedd achosion eraill o'r fro yn mynd â sylw hefyd.

### Ffrae Deuluol

Mae'n amlwg fod rhyw ffræ deuluol wedi digwydd yn Llanrug, a hynny rhwng teulu Buarthau a theulu Halfway. Halfway oedd yr hen dafarn lle saif tŷ Ogwen ar y briffordd ger Garej Hafod heddiw. Dywedir ei bod union hanner y ffordd rhwng Caernarfon a Llanberis pan adeiladwyd y briffordd newydd o Ben y Greuor, Llanrug i Gwm y Glo ac ymlaen ar hyd glannau Llyn Padarn i Lanberis tua 1830.

Roedd tadau, meibion a merched yn rhan o'r ffræ hon. Rhybuddiwyd Owen Jones, saer maen o Gae Rhos, ei fab, Owen Jones yr ieuengaf, saer maen arall, o Halfway, a'i chwaer, Anne Jones o'r Halfway i gadw'r heddwch am flywyddyn tuag at John Owen, labrwr o'r Buarthau, Llanrug.

Rhybuddiwyd John Owen yn yr un modd i gadw'r heddwch tuag at y tri arall. Mae'n amlwg felly fod cymaint o fai ar y ddwy ochr, ac na ellid dod i benderfyniad ynglŷn â phwy oedd yn euog o gychwyn yr holl ffrwgd. Does dim sicrwydd chwaith beth ddigwyddodd ar ôl i'r flywyddyn ddod i ben - ond mae'n debyg fod blwyddyn o amser yn hen ddigon i waed pob un ohonynt ocri.

### Meichiau

Yr hyn sy'n ddiddorol ynglŷn â'r achosion hyn yw fod rhai o'r unigolion oedd yn fodlon bod yn feichiau dros y cyhuddedigion yn ymddangos mewn mwy nag un achos.

Roedd John Roberts, Pandi, Ponturhythall, Llanddeiniolen, yn ymddangos ar ran David

Owen yn yr achos o ddwyn a hefyd ar ran Owen Jones, Halfway. Daw ei enw i'r amlwg hefyd mewn achos arall ble cyhuddwyd John Jones, White Horse Tavern, Llanddeiniolen, o ymosod ar John Williams, labrwr o'r Waunfawr, Llanrug. Enwau eraill sy'n ymddangos fel meichiau yw John Jones, gof, Efail Cae Dicwm, Penisa'rwaen, a John Jones, gof, Pentaicroesion. Mae posibilrwydd mai'r un person oedd hwn.

Dyna gipolwg fras felly ar rai o'r achosion oedd yn creu testun siarad yn y fro bron i ddau can mlynedd yn ôl. Tybed oedd rhai ohonynt yn un o'ch hynafiaid chi?

\* \* \*

### Cerdd i Ddiwrnod Gosod

Mewn rhan arall o'r papur hwn mae llythyr yn ymddangos gan Tudur Jones o Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis. Mae'n chwilio am gopi o gerdd gan y diweddar Emyr Jones (Waunfawr a Chaernarfon). Hon oedd y gerdd a enillodd iddo gadair Eisteddfod Caban Mills yn Chwarel Dinorwig yn 1938. Mae'r gadair eisoes ym meddiant yr amgueddfa, ond nid oes copi o'r gerdd ar gael - hyd yma.

Cynhaliwyd yr eisteddfod ym mis Hydref 1938 a'r testun a osodwyd oedd 'Cerdd i Ddiwrnod Gosod'. Rwyf eisoes wedi pori drwy rai o ôl-rifynnau'r *Herald Cymraeg* am ddiwedd 1938, ond does dim sôn am y gerdd. Apêl sydd yma felly ar i unrhyw un sydd â chopi ohoni i gysylltu ar fyrder â Tudur Jones.

### W. Ryle Davies

Y mis diwethaf holais am wybodaeth ynglŷn â dyddiaduron a ysgrifennodd y Parch W. Ryle Davies tra'n weinidog yn Nisgwylfa. Cafwyd sawl ymateb yn dweud fod ei gofiant ar gael, ac y mae hwnnw yn fy meddiant innau hefyd; ond hyd yn hyn, does neb wedi cysylltu gydag unrhyw wybodaeth am y dyddiaduron.

### Gwirionedd?

Tra'n catalogio casgliad o ddogfennau yn ymwneud â gwerthiant rhan o Stad Gwydyr yn ardal Trefriw a Llanrwst yn 1895, deuthum ar draws y frawddeg agoriadol hon i lythyr oddi wrth asiant y Stad i gyfreithwyr yn Llundain. *I think the Welsh names have been devised as a punishment for Englishmen.*

A dyna ddigon i gnoi cil arno y mis hwn. Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

### Tawelwch Meddwl

I lanhau a thwtio beddau, ailadeiladu, peintio â phaent neu aur yn y llythrennau - yna cysylltwch â

Hywyn ar 01286 830150  
neu 07810 522303

Gwasanaeth lleol a sylw arbennig.




### GWYN JONES

## FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

HAU

07050 357735



BLVNYDDOEDD O BROFIAD VN V MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORGHES

BVRDDAU FFASIA

GLADIO

CONSERFATERIS



# YSGOL BRYNREFAIL

## Rygbi

Llongyfarchiadau i fechgyn Blynnyddoedd 9 a 10 ar gyfres o fuddugoliaethau yn ddiweddar, sy'n golygu eu bod wedi ennill eu lle yn Rownd Derfynol Plât Gwynedd. Ar ôl trechu Ysgol Syr Hugh Owen yn y rownd gyn-derfynol, roedd yr ornest fawr yn erbyn Ysgol Eirias, Bae Colwyn. Felly ar nos Fawrth, 10 Mai, dechreuodd y rownd derfynol.

Serch ymdrech wirioneddol gan hogia Brynrefs, colli fu eu hanes - o drwch y blewyn!!!!!! Da iawn chi hogia, a chofiwch ennill y flwyddyn nesaf!!!!



## Pêl-fasged

Yn ddiweddar, chwaraeodd tîm Blwyddyn 8 mewn twrnament ym Maes Glas, Bangor. Yn y gêm gyntaf, roeddem yn chwarae yn erbyn Ysgol David Hughes. Dechreuodd y gêm yn ardderchog, gyda Brynrefail yn rheoli'r chwarae. Erbyn diwedd yr hanner cyntaf roddem wedi chwalu hyder David Hughes a'r sgôr terfynol oedd Brynrefail 18, David Hughes 2.

Dilynodd yr ail gêm batrwm y gêm gyntaf hefyd gyda Brynrefail eto'n rheoli. Y sgôr terfynol yn erbyn St. Gerrard's oedd 28-0 i ni!!

Yn erbyn Amlwch oedd y drydedd gêm a heb amheuaeth dyma ymryson rhwng dau dîm gorau'r twrnament. Gêm o un pen i'r llall oedd hon gydag Amlwch ar y blaen o 4-2 ar ddiwedd yr hanner cyntaf. Ond, daeth Brynrefail yn ôl yn yr ail hanner a'r sgôr terfynol oedd 6-4 i Frynrefs!!!!

Braidd yn flinedig oedd yr

hogiau erbyn y bedwaredd gêm a bu'n rhaid ceisio codi'r pennau eto ar ôl colli o 8 i 2 yn erbyn Tim A St. Gerrard's. Llwyddwyd i wneud hynny yn ein pumed gêm yn erbyn Ysgol Rydall. Enillasom o 10 i 2.

Yn y rownd gyn-derfynol cawsom St. Gerrard's A - y tîm roddodd grasfa i ni yn gynharach. Ond y tro hwn, roedd Brynrefs wedi deffro a llwyddasom i ennill ein lle yn y rownd derfynol yn erbyn Amlwch trwy drechu hogiau Bangor o 6 i 0.

Felly, yn y rownd derfynol roddem yn wynebu Amlwch unwaith eto. Chwaraeodd Amlwch yn well y tro hwn, ac roedd mwy o her ynddynt. Erbyn hanner amser y sgôr oedd 2 i 2. Roedd yr ail hanner yn dyngedfennol felly!!! Wedi chwarae o'r naill ben i'r llall, y sgôr terfynol oedd 4 rhwyd yr un. Penderfynwyd y dylai Amlwch a Brynrefail rannu'r safle cyntaf. Diwrnod hynod lwyddiannus - a blinedig!! - felly i'r hogia. Da iawn chi!!!!

## Ail-eni'r 'Babi'

Na, nid gwall teipio mo hyn, mae'r ysgol yn bwriadu ail-eni o fath!! Chwi a gofiwch i ni lwyfannu drama gerdd wreiddiol o eiddo Eirug Wyn yn ystod dathliadau canmlwyddiant yr ysgol yn 2000. Wel, pleser yw datgan ein bod fel ysgol wedi cael gwahoddiad i lwyfannu drama ar faes y brifwyl yn y Faenol yr haf yma. A pha well teyrnged i un o fawrion ein bro a'n cenedl na llwyfannu drama

'Babi Bach y Wern' unwaith eto, er mwyn i Gymru gyfan gael cyfle i fwynhau dychan a hiwmor un o gyn-ddisgyblion enwocaf Brynrefail? Byddwn yn perfformio'r ddrama (heb yr ochr gerddorol oherwydd y cyfyngiad ar amser) am 1.00 o'r gloch y prynhawn yn Theatr y Maes ar ddydd Sul, Gorffennaf 31ain. Dewch yn llu i gefnogi a mwynhau anturiaethau Wil y Wern a'i frwydr yn erbyn pwerau'r diafol a grym Duw!!!!

## Gwneud eu marc!!

Mae dau o ddisgyblion yr ysgol yn prysur wneud enwau iddynt eu hunain trwy berfformio'n ardderchog mewn cystadlaethau ralio yn lleol. Huw Mackinnon o Flwyddyn 13 yn gyrru Peugeot 205 sy'n gyrru, gyda Ceri Hughes o Flwyddyn 10, yn darllen y map. Gwyddom oll am draddodiad ralio yn nheulu Ceri - mae ei chwaer, Gwawr Hughes, Llanberis, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Brynrefail, yn dipyn o arbenigwraig yn y maes hwn hefyd. Llwyddodd Huw a Ceri i ennill yr ail safle yn eu dosbarth yn eu rali ddiweddaraf, allan o bron i ddeugain car!!!!!! Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch, a braf yw gweld fod y merched yn dal i ddweud wrth y dynion 'ma sut i ddreifio!!!!

## Cyngerdd 'Lleisiau Llanrug'

Ar nos Fercher, 11 Mai, cyfrannodd disgyblion yr ysgol tuag at gyngerdd er mwyn codi arian tuag at Eglwys Llanrug. Perfformiodd Band Pres yr ysgol eu datganiad ar gyfer Eisteddfod yr Urdd ddiwedd y mis - medli o ganeuon y Beatles, ynghyd â pherfformiad gan grŵp dawnsio gwerin hyn yr ysgol, a chafwyd y perfformiad byw cyntaf o'r gân ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth Cân i Gymru yn ddiweddar - 'Mewn Ffydd' gan gyn-ddisgybl o'r ysgol hon, Elfed Morgan Morris, a'i athrawes, Lowri Roberts. Disgyblion yr ysgol oedd yn cyfeilio iddo gyda chôr yr ysgol yn ei gefnogi. Llongyfarchwyd pawb ar berfformiadau caboledig, a diolch o galon i bob un a gymerodd ran.

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



**Quality Hotel  
Llanberis**

(Gwesty'r Fictoria gynt)  
- rhan o CHOICE HOTELS

*with droed yr Wyddfa*

Ffôn: Llanberis (01286) 870253



**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Safydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 - Symudol: 07610736482

Amcangyfrif am ddim • Ar Gael 24 awr y dydd

Shawn Jones, Terannodd, Rhos Gynfi, Deiniolen LL55 3LG

I drin a thrwsio  
pob math o  
beiriannau gwnïo  
**MENAI SEWING  
MACHINE CENTRE**  
21 Stryd Fawr  
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau  
ac ati mewn stoc

Mae'n rhaid i mi siarad  
hefo rhywun



**Y SAMARIAID**

Bangor

(01248) 354646



Mae cyfres celfyddydau S4C, *Y Sioe Gelf*, yn cynnig llwyfan i dalentau artistig ar draws Cymru trwy lawnsio cystadleuaeth i gomisiynu tri unigolyn i gyfrannu i brosiect cyffrous yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch 2005.

Mae tim cynhyrchu'r gyfres yn chwilio am syniadau gan unigolion sy'n gweithio mewn disgyblaethau artistig amrywiol, a byddant yn ystyried gwaith o fewn unrhyw faes creadigol. Bydd y prosiectau yn cael eu ffilmio cyn ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gyda'r bwriad o ddarlledu rhifyn arbennig o'r *Sioe Gelf* ar ddydd Sul ola'r Eisteddfod, 7 Awst.

Dywedodd Geraint Ellis, cynhyrchydd ar *Y Sioe Gelf*, 'Mae'n fwriad creu bwrlwm fydd yn dod yn destun trafod yn ystod yr Ŵyl ac yn ychwanegu at y draffodaeth gelfyddydol yn ystod yr Eisteddfod. Rydym yn croesawu pob math o gynigion a bydd y prosiectau llwyddiannus yn ffrwyth cydweithio agos rhwng yr artistiaid a'r cwmni

## Ysu i fod yn Greadigol?

teledu.

'Nid dyma'r tro cyntaf i'r *Sioe Gelf* ymgymryd â phrosiect comisiwn o'r math yma. Dair blynedd yn ôl, fel gomisiynwyd pedwar artist gweledol i ymateb i'r thema o 'Ddigartrefedd', mewn prosiect a drefnwyd ar y cyd gyda Shelter Cymru.

Y tro hwn dydi'r prosiect ddim yn gyfyngedig i artistiaid sy'n creu celf weledol - mi fyddwn ni'n croesawu ceisiadau gan unigolion sy'n gweithio o fewn unrhyw faes creadigol, o gomedi stand-yp i ddawns greadigol.

'Mae'r testun yn ben-agored iawn. Er ein bod yn disgwyl i'r artistiaid ymateb i'r Eisteddfod mewn rhyw fodd neu'i gilydd, gall hynny ddilyn unrhyw drywydd mewn gwirionedd.

'Fel cwmni sy'n cynhyrchu cymaint o raglenni celfyddydol, mae gweld yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal

o fewn rhyw bum milltir i'n swyddfeidd ni yma yng Nghaernarfon yn rhywbeth cyffrous iawn, a rydan ni'n falch o fod yn rhan o rywbeth fydd, gobeithio, yn ychwanegu at y cyffro mawr yn ystod cyfnod y Brifwyl.'

Ychwanegodd Luned Emyr, cyflwynydd *Y Sioe Gelf*, 'Mae'r hinsawdd gelfyddydol yng Nghymru heddiw yn un ddeinamig a chyffrous, a'r gobaith yw y bydd prosiect comisiwn y *Sioe Gelf* yn tanlinellu hyn ac yn agor drysau i feddwl, trafod a chreu.'

Y dyddiad cau am geisiadau yw 13 Mehefin a dylid cysylltu â Geraint Ellis, Dylan Huws neu Shari Llewelyn ar (01286) 685300 neu anfon ebost at [sioegelf@cwmnida.co.uk](mailto:sioegelf@cwmnida.co.uk)

### Nodiadau

Nid yw hi'n fwriad cyfyngu ar ddychymyg nac uchelgais y prosiectau ond mae creu

prosiect sy'n ymateb i'r canllawiau isod yn allweddol:

- Fe ddylai'r prosiectau ymateb i'r Eisteddfod mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.
- Mae'n rhaid i'r prosiectau fod yn berthnasol i wythnos yr Eisteddfod.
- Mae'n rhaid i'r prosiectau ddigwydd o fewn dalgylch yr Eisteddfod.
- Rhaid cael o leiaf un prosiect sy'n digwydd ar faes yr Eisteddfod.
- Mae elfen gyhoeddus a chael ymateb y cyhoedd yn ystyriaeth bwysig.
- Mae'n bosib rhagbaratoi ond rydym yn chwilio am brosiectau sydd ag elfen 'creu' yn digwydd yn ystod y cyfnod ffilmio.
- Fe all prosiect fod yn ddigwyddiad *one-off* neu'n ddatblygiad sy'n digwydd yn ystod yr wythnos.
- Rhaid bod yn ymarferol. Bydd y rhaglen yn cael ei ffilmio ar ddechrau'r wythnos ac yn cael ei golygu a'i darlledu o fewn yr un wythnos.



Yr 'Homeguard' Llanrug, Cwm-y-glo, Deiniolen a'r cyffiniau, 1940.

### CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ccisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd!

John H. Hughes,  
Tan y Clogwyn,  
Llanberis,  
Gwynedd LL55 4LF  
Ffôn: (01286) 871562

Ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn 31 Awst 2005.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodol.

### CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL

## CEIR CYMRU

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Druidion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanacth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'



# Helyntion Bachgen o Chwarelwr Robert David Jones (Chris)

6 Mehefin 1885 – 19 Mehefin 1968

Roedd fy nhad, Robert David Jones, yn edrych ymlaen yn eiddgar am y chweched o Fehefin, 1898. Byddai'n cael ei ben-blwydd yn dair ar ddeg oed y diwrnod hwnnw a chael gadael yr ysgol a mynd i chwilio am waith. Yn groes i'w ddisgwyliadau, roedd yn annhebyg y byddai'n cael ymuno gyda'i dad yn chwarel y Penrhyn, Bethesda, gan fod yr anghydfod rhwng yr oruchwyliath a'r chwarelwyr yn dal i ddirywio yn ddyddiol. Mewn rhyw ddwy flynedd byddai'r Streic Fawr wedi dechrau, a'r dioddef a'r tlodi yn amharu ar bron pawb yn yr ardal.

Oddeutu 1887 symudodd y teulu o'r hen gartref, sef 1 High Street, Rhiwlas, i Maes Meddygon, tyddyn ar lethrau Moel Rhiwen, rhyw ddwy filltir o bentref Rhiwlas. Roedd mewn lle cynig ac anghysbell, ac ar ochr y llwybr troed a arweiniai tros y fawnog i gyfeiriad Dinorwig a Deiniolen.

Yn groes i'r disgwyl, cafodd Robert waith yn chwarel Dinorwig, ond golygai hynny bod yn rhaid iddo gerdded rhyw chwe milltir bob bore a nos i'w waith. Oriau gwaith yr adeg hynny oedd o saith y bore hyd haner awr wedi pump yr hwyr, a hynny am chwe diwrnod o'r wythnos. Yn y gaeaf byddai'n dywyll pan oedd yn gadael ei gartref, ac yn dywyll pan gyrhaeddai yn ôl.

Tua 1902 symudodd y teulu unwaith eto, y tro yma i 6 Dinorwig Cottages, Dinorwig, a oedd o fewn tasliad carreg i'r chwarel. Arbedai hyn y siwrna gerdded faith i Robert, a hefyd gobeithiai Dafydd, ei dad, a oedd yn ddiwaith, gael swydd yn chwarel Dinorwig. Buont yn byw yno am rai blynedd, a datih Dafydd a'r teulu yn aelodau o'r Eglwys Anglicanaidd yn y pentref. Efallai bod a wnelo rhesymau Dafydd Jones dros ymaelodi yn yr eglwys yn fwy â chael gwaith yn y chwarel na'i gariad at y sefydliad eglwysig, gan mai Wesle selog a fu cyn hynny ar hyd ei oes.

Ymhén rhai blynedd, a Dafydd Jones bellach yn gweithio yn y chwarel, penderfynodd y teulu symud i'w unwaith yn rhagor, yn rhannol am fod Dafydd yn hiraethu am gael addoli unwaith i'w gyda'r Wesleaid. Cawsant dŷ yn 12 Porth y Gogledd, Deiniolen, a oedd yn agos i'r capel a siopau'r pentref.

Ymdafodd y teulu i weithgareddau'r capel a mudiadau eraill yn y pentref, ac ymunodd Robert â'r Seindorf. Bu'n ailyd selog am bedwar deg

tri o flynyddoedd, gan gynorthwyo bandiau eraill yr ardal yn achlysurol, pan oeddynt yn fyr o chwaraewyr cornet. Roedd ei dad hefyd yn gyn-aelod o fand Rhiwlas, ac etholwyd yntau i wasanaethu ar bwyllgor y band. Morris oedd yr ieuengaf o'r plant, a'r unig un, ac eithrio Robert, oedd bellach yn byw gartref.

Ar ôl dechrau ennill ychydig o gyflog, prynodd Robert organ fechan, a chafodd lawer o bleser gyda hi. Bu'r organ yn amlwg yn adloniant ein teulu ar hyd ein hoes, ac arferai ein cymdogion a'n ffrndiau ymuno â ni yn yr hwyl, yn enwedig ar adegau gwyliau. Dafydd, fy mrawd, fyddai'r organydd, ac er na chafodd unrhyw wersi, roedd yn eithaf medrus ar y nodau. Pan farnai fy nhad ei bod yn amser noswyllo, ei orchymyn i Dafydd fyddai,

'Tara'r emyn Dan Dy Fendith wrth ymadael.' Hwn oedd ei arwydd fod y noson ar ben, ac yn amser i bawb noswyllo.

Prynodd watsh aur tua'r un adeg, a chafodd lawer iawn o 'adloniant' allan o honno hefyd, ond mwy am hynny eto.

Roedd fy nhad wedi eistedd arholiad Tonic Sol-ffa ym Mehefin 1902 ac wedi cael tystysgrif am ei lwyddiant. Mae'r dystysgrif yn fy meddiant ac rwyf yr un mor falch ohoni ag yr oedd yntau. Dyma'r unig arholiad 'academaidd' a eisteddodd erioed, mi dybiwn, er ei fod wedi bod yn cystadlu yn eithaf llwyddiannus ar chwarae'r cornet yn eisteddfodau'r cylch. Roedd eisoes yn gyfarwydd â'r Hen Nodiant, gan mai dyna oedd y cyfrwng a arferid gan y band. Ni fyddai'n cael trafferth gyda'r un o'r ddwy gyfundrefn, gan y gallai chwarae yn syth oddi ar y copi heb drafferth.

Yng nghystadluach y 'solo cornet' yn eisteddfed eapel Cefn y Waun y cafodd y llysenw 'Chris'. Y pencerdd Mr Brwynog Jones, o Lanberis, oedd y beirniad y noson honno, ac yn ei feirniadaeth dywedodd fod fy nhad yn chwarae'r cornet 'fel Chris Smith'. Roedd Chris Smith yn un o'r goreuon yn y wlad am chwarae cornet ar y pryd, ac arferai hyfforddi band Llanberis ar gyfer cystadlaethau pwysig. Yn ei feirniadaeth, awgrymodd Brwynog Jones y dylai pawb alw fy nhad yn 'Chris' o hynny ymlaen, gan fod ei arddull o chwarae yn debyg iawn i un y gŵr mawr hwnnw.

Gan fod ardal y chwarelwyr yn hoff iawn o lyschwau, bu i'r enw llynu wrtho, ac wrth yr enw 'Chris' yr adwaenid ef am weddill ei oes. Ychydig iawn o drigolion y pentref a wyddai mai

Robert David Jones oedd ei enw cywir, a chyfarhai pawb ef yn foneddigaidd iawn fel Chris Jones. Fe roddwyd yr enw 'Chris' a'i enw bedydd ar ei garreg fedd, gan mai felly y buasai pawb yn ei gofio.

Yn fuan ar ôl cartrefu yn Neiniolen, cyfarfu â'i ddarpar wraig, Jane, sef merch Owen Richard a'i wraig Elin Mary Jones, Erw Fair, a phriododd y ddau ym mis Ionawr, 1911. Cawsant dŷ ym 5 Porth y Gogledd, a buont yn byw yno am gyfnod cyn symud ymlaen i 9 Porth y Gogledd. Bu iddynt fyw yno am weddill eu hoes, ac yno y ganwyd chwech o'u saith plentyn.

Yn 1915, ac yntau yn briod gyda dau o blant, ymunodd â'r Royal Welch Fusiliers. Yr atyniad mwyaf iddo ar y pryd oedd y gobaith o gael ymuno â'r band, ac fel llawer o'i gyfoedion, roedd yn credu y byddai y rhyfel trosodd cyn y Nadolig dilynol.

Dechreuodd ar ei yrfa yng Nghroesoswallt, gyda nifer o ddynion eraill o'r pentref, ond symudwyd hwy i'r Amwythig. Cafodd Robert wireddu ei freuddwyd o ymuno â'r Band, a chafodd swydd fel 'Bugler'. Byr fu eu harhosiad yng Nghroesoswallt, a symudwyd hwy i Bedford, ond y tro hwn cafodd fy mam a'r ddau blentyn ymuno ag ef, gan aros mewn llety yn y dref. Buont yn byw yn Bedford am gyfnod, cyn i'r gatrawd gael ei symud, y tro yma i Norwich. Symudodd ef a'r teulu a chawsant lety yn Glebe Road yn y ddinas.

Daeth amser ymarfer y milwyr i ben, a bu rhaid i'w tenluedd ddychwelyd gartref. Cafodd fy nhad a gweddill y milwyr eu gyrru i wasanaethu yn y Dwyrain Canol, ple y cawsant eu profiad cyntaf o ryfela yn erbyn eu gelynion. Gwasanaethodd wedyn yn Ffrainc a Gwlad Belg, ond y tro yma, yr Almaenwyr oedd y gelyn. Bu yng nghanol y gyflafan a gwelodd erchyllerau a dioddefaint dychrynlyd, ond rhywfodd, daeth adref yn ddianaf, er iddo golli llawer o'i gyfoedion yn y brwydro.

Roedd yn 1919 cyn iddo gael ei rhyddhau o'r fyddin, a dychwclodd i weithio yn y chwarel ar unwaith. Ail-ymunodd â'r band ac etholwyd ef, ymhén amser, yn aelod o bwyllgorau'r Oddfellows, y Co-op a'r Llyfrgell. Bu yn ymddiriedolwr, fel ei dad, yng nghapel y Wesleaid, ar hyd ei oes. Bu yr un mor selog yn y capel ar ôl dyfod adref o'r fyddin ac y bu cyn ymuno.

Adnabyddid ef fel tipyn o gymeriad, ac mae llu o storïau doniol amdano. Roedd yn greadur ffrath iawn, ac yn llawn hwyl pob amser, ac ar ei orau ymhlith pobl. Ni welais ef erioed mewn tymer ddrwg, er y gallai 'ffrwydro' ambell dro, ond buan iawn y byddai yn anghofio.

Roedd hefyd yn hoff o'i beint a mynychai'r Bull a'r Wellington yn rheolaidd.

Un diwrnod yr oedd yn cywiro ei 'Jermon', sef bachgen o brentis, a oedd wedi naddu ei lechen yn 'din-gam', neu allan o sgwâr. Sylweddolodd, tra yn ei hyfforddi, ei fod ef ei hun wedi gwneud yr un camgymeriad. Erbyn hyn roedd cynulleidfia o'i gyd-chwarelwyr wedi dod yno i wyllo, a gwyddai y buasent yn tynnu ei goes yn ddirugaredd am ei gamwedd. Heb betruso, dywedodd wrth y jermon,

'Fel yna rwyf ti yn naddu, ond dangosaf i ti yn awr y ffordd iawn i wneud.' Wnaeth o ddim twyllo neb y diwrnod hwnnw, a bu tipyn o dynnu coes ynglŷn â'r digwyddiad, ond roedd wedi rhoddi cynnig teg arni!

Roedd yn dal i weithio er ei fod ymhell tros yr oed ymddeol, a meddyliodd y buasai'n syniad da i gael swydd tipyn ysgafnach. Clywodd fod gŵr a arferai gynorthwyo'r saer maen yn ymadael, a phenderfynodd geisio am ei swydd.

Aeth i lawr i'r brif swyddfa i weld y goruchwyliwr, a gofynnodd iddo a oedd gobaith cael y swydd oedd ar fin mynd yn wag. 'Wel', meddai'r goruchwyliwr, 'Doeddwn i ddim wedi bwriadu llenwi'r swydd yna, gan mai ychydig iawn o waith sydd ganddo i'w wneud.'

'Dyna pam yr oeddwn mor awyddus i'w chael,' meddai fy nhad wrtho.

Cafodd y swydd, a bu'n gweithio gyda'r saer maen hyd ei ymddeoliad yn 71 mlwydd oed, ar ôl 58 o flynyddoedd yn y chwarel.

(Mwy o'r hanes mewn rhifynnau i ddod)

## AR OSOD

Sied fawr a hwylus gyda drws mawr 'roller'.  
Am fwy o fanylion cysylltwch a  
**John Brynafon** ar  
**01286 675190**  
neu **07798 718188**  
<http://www.bbc.co.uk/>

## TAFARN BRYNGWNA Cacathro

Croeso mawr i bawb i'r  
'Bryngwna'  
yng nghanol pentref Cacathro,  
lle ceir bwyd cartref ac  
amrywiath o ddiodydd  
traddodiadol, i gyd mewn  
awyrgylch cartrefol mewn tafarn  
bentref, yng nghwmni Garth  
a Steffan Bowen.

Cinio dydd Sul  
a byrbrydau ar gael

Ffoniwch (01286) 674568  
i gadw byrdd neu archebu  
ymlaen llaw



## Cystadleuaeth Cemeg

Ddiwedd Ebrill cynhaliwyd cystadleuaeth ranbarthol gogledd-orllewin Cymru i fyfyrwyr Blwyddyn 12 Cemeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor. Aeth tîm o dri o ddisgyblion Ysgol Brynrefail i'n cynrychioli yn y gystadleuaeth hon, sef Sion Llŷr Roberts, Angharad Parry Jones a Greg Cain.

Yn dilyn diwrnod prysur o

waith arbrofol Cemeg yn labordai'r coleg, daeth Ysgol Brynrefail yn fuddugol allan o 14 o ysgolion!!! Enillwyd tlws gan y tîm a chafwyd cyfrifiadur glin newydd sbon i'r Adran Wyddoniaeth.

Bydd Sion, Angharad a Greg yn mynd i'r gystadleuaeth genedlaethol yn Llundain ddiwedd mis Mehefin. Pob lwc i chi'ch tri yn y ddinas fawr!!



Sion Llŷr Roberts, Angharad Parry Jones a Greg Cain.

## Ysgoloriaethau

Llongyfarchiadau gwresog i ddau o ddisgyblion Blwyddyn 13 ar ennill ysgoloriaethau i astudio'u dewis-bynciau mewn prifysgolion. Enillodd Bledwyn Jones o Nant Peris ysgoloriaeth i astudio Addysg Grefyddol ym Mhrifysgol

Cymru Bangor, ac cnillodd Huw Foulkes o Fethel ysgoloriaeth i astudio Cymraeg a Cherddoriaeth yng Nghaerdydd.

Da iawn chi fechgyn!! Edrychwn ymlaen at eich llongyfarch ymhellach pan fyddwch yn graddio!

## GORSAF BETROL

**Esso BERAN**

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau Newydd  
Cardiau Penblwydd • Wyau  
Nwyddau Groser • Melysion**


**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**

## Llwyddiant i Ddau o Antur Waunfawr

Yn ddiweddar, aeth Gareth Roberts a Gwion Davies i'r Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Nghaerdydd i gynrychioli gogledd Cymru yng Nghystadleuaeth Genedlaethol Boccia, a drefnwyd gan Gymdeithas Chwaraeon Cymru i'r Anabl. Mae Boccia, sef addasiad o'r gêm bowllo, yn rhan o raglen chwaraeon Cynllun Hamdden Antur

Waunfawr, ac mae'r ddau, ymysg eraill, wedi cael cyfle i ymarfer gyda Chlwb Bowllo Waunfawr yng nghanolfan hamdden y pentref.

Daeth tîm Gwion a Gareth yn ail agos yn y Gystadleuaeth Dosbarth Agored, a Gwion yn rhagori ymhellach drwy ddod yn ail yn y Gystadleuaeth Unigol Agored hefyd.



## ADRAN YR URDD BETHEL ER GWELL –TAITH I LANELLI

Fel ôl-nodiad i daith tîm rygbi cangen yr Urdd, Bethel i'r Strade, y cawsom ragflas ohoni mis diwethaf, braf cyfnodi llwyddiant. Roeddwn mewn grŵp oedd yn cynnwys timau o Aberhonddu, Yr Wyddgrug, Dinbych a Phontyclun – pob un â chysylltiad ag adrannau ieuencid y timau rygbi lleol.

Y canlyniadau yn y gemau grŵp oedd cyfartal ddi-sgôr yn erbyn yr Wyddgrug, curo Pontyclun 7-0 (sioc!), curo Aberhonddu 26-0, a churo Dinbych 12-5. Gyda llaw dyma'r cais cyntaf i'r tîm ildio

mewn naw gêm!

Trwodd felly i'r rownd gyn-dderfynol, camp ynddo'i hyn mewn cystadleuaeth genedlaethol. Eto gemau grŵp, ond y tro yma timau o Gydwelli a Chaerfyrddin, cadarnleoedd rygbi. Er y blinder, ac ambell anaf, cafodd y Gogs gryn ganmoliaeth – a pharch – gan eu gwrthwynebwyr. Colli 5-0 i Gydwelli – y tîm a enillodd y gystadleuaeth, a cholli 12-7 i Ysgol y Dderwen, Caerfyrddin. Da iawn nhw, a diolch i bawb a gefnogodd yr achos mewn unrhyw ffordd.

## Dylan Griffith

**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL  
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**

**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac  
ymhellach i ffwrdd**

Gwasanaeth teimladwy,  
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

## HEFYD

**CERBYDDAU CLASUROL YR WYDDFA**

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce*  
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac  
achlysuron arbennig eraill



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI  
CELTIC WINDOWS**

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS  
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad  
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN  
LLANRUG LL55 2RG**

**(01286) 678618 (dydd)  
(01248) 670081 (nos)**





## YR YSGOL GYNRADD.

Digwyddiadau'r tymor hyd yn hyn:  
*Pasiant y Plant Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005.*

Yn dilyn ymweliad Cwmni'r Fran Wen ym mis Chwefror, bu Dafydd Griffith ac Elgan Jones, blwyddyn 6, yn llwyddiannus yn eu hymdrechion i gael eu dewis i fod yn rhan o'r pasiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Llongyfarchiadau i chwi eich dau a hwyl yn yr ymarferion.  
*Twrnament Pêl-droed a Phêl-rwyd.* Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol ar ddod yn drydydd yn nhwrnament Dalgylch Syr Hugh Owen. Da iawn chi.

*Rhaglenni Teledu.*

Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn recordio rhaglen WAAA! yn stiwdio Barcud yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i gystadlu a bod yn rhan o'r gynulleidfa. Diolch yn fawr i'r trefnwyr am y gwahoddiad.

Recordio rhaglen Ribidires fu rhai o blant blwyddyn 1 a 2, ac roeddynt wedi cael pawns wrth eu boddau. Edrychwn ymlaen i'w gweld ar y teledu yn fuan.

*Croeso cynnes.*

I Miss Sian Williams, sy'n fyfyrwraig ym mwyddyn Derbyn am gyfnod o 6 wythnos. Pob dymuniad da iddi ar ei hymarfer dysgu.

*Eisteddfod Bentref.*

Diolch i holl athrawon yr ysgol am baratoi gwaith ysgrifenedig, celf a llaw gyda'r plant ar gyfer yr Eisteddfod. Diolch hefyd am eu dysgu ar gyfer y cystadlaethau llwyfan a diolch i'r plant a'u rhieni a gefnogodd ar y diwrnod. Graesyn na fyddai mwy yn bresennol.

*Gynllun Gwyrdd Ysgolion Môn a Gwynedd.*

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i'r Gynllun Gwyrdd a byddwn eleni yn ymgeisio am y Wobr Arian. Rydym yn ffodus iawn mai mam Jessica, Peter a Tim, set Mrs Anna Williams, yw Swyddog Gerddi Gwyllt y Parc Genedlaethol. Mae hi a'n cyfeillion o'r Antur wedi bod yn cyd-weithio â'r plant i ddatblygu gardd yr ysgol. Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn gwneud blychau blodau pren yn yr Antur yn ddiweddar, tra bod plant blwyddyn 4 wedi bod yn plannu hadau a phlanhigion ar eu cyfer. Ysgrifennodd plant blwyddyn 6 lythyrau at gwmnïau lleol Travis Perkins, Hughes Grey Fillock a Gerddi Fron Goch yn gofyn am gyfraniadau i'r ardd. Carem ddiolch fel ysgol i'r cwmnïau am gyfrannu deunyddiau a blodau i'r cynllun yn rhad ac am ddim. Bydd trigolion y pentref yn gweld newid mawr yn yr ardd yn ystod yr wythnosau nesaf.

CLWB 300. Dyma restr abnillwyr y Clwb am fis Ebrill: £40: Mr J. H. Edwards, Aneddle; £25: Ms Janet Smith, Rhoslan; £10: Mr Jeff Daniels, 8 Ty Hen.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Vn absenoldeb y Llywydd, cymerwyd y gadair gan Hilda Williams, yr Is-lywydd. Croesawodd Pat Parry. Cyngorwr SYM, i amlinellu yr awgrymiadau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Blyneddol yn Llundain ym mis Mehefin. Ar ôl trafodaeth, pasiwyd yn untrydol i gefnogi'r ddau fater. Enillwyd y raffl, oedd wedi ei

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570



Plant Blwyddyn 5 yn yr Antur.

rhoi gan Frances Hurst, gan Carys Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Eglwys y Waun am 1.30 o'r gloch ar 2 Mehefin, pryd y ceir sgwrs gan Mrs Alison Morton, Llysieuydd Meddygol. Croeso cynnes i aelodau newydd.

PEN-BLWYDD. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 85 mlwydd oed.

PEN-BLWYDD PRIODAS.

Dymunwn longyfarch Mr a Mrs Gwynedd Williams, Bro Waun, ar ddathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

GENEDIGAETH. Anfonwn ein llongyfarchiadau i Gwyneth a John, Bryn Meredydd, ar enedigaeth eu mab bychan, Iago, brawd bach i Enlli a Mabon.

CYNGERDD ARBENNIG.

Dyletswydd yw estyn ein llongyfarchiadau i Gôr y Waun, yr Unawdwyr a'r artistiaid eraill i gyd ar ôl clywed eu perfformiad o waith Robat Arwyn 'Atgof o'r Sêr'. Canmoliaeth oedd gan bawb a fu yn y cyngerdd yng Nghapel Salem, Caernarfon.

CYDYMDEIMLAD. Anfonwn ein cydymdeimlad â theulu y diweddar Mr David Jones, Llynfod, ei ferch, Glenda a'i frawd, Emyr.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Nellie Roberts, Stad Tref Eilian, ei mab yng nghyfraith a'i phedwar ŵyr a'r teulu i gyd.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Mrs Gwenlli Williams, Ardwyn, a Mr Gwyn Davies, Bryn Eithin, wedi iddynt orfod treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Gwenlli Williams ddiolch i'w theulu a chyfeillion am y galwadau ffôn, y cardiau a'r ymweliadau tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CROESO ADREF i deulu Eryri Wen, wedi iddynt dreulio bron i fis yn yr Unol Daleithiau yn ymweld â chwiorydd Dylan, ac yn mwynhau eu hunain!

DYMUNO YN DDA. Blwyddyn arall wedi mynd heibio a dyma ni yn dymuno pob llwyddiant i'r bobl ifanc fydd yn sefyll arholiadau yn yr ysgol a'r coleg. Cewch edrych ymlaen i wyliau'r haf wedyn.

## CÔR ERYRI

Efallai eich bod wedi sylwi ar griw o ferched y fro yn crwydro strydoedd Llanrug ar nos Iau gyda ffeiliau du dan eu cesciliau. Pwy ydy'r rhain medde chi? Wel, aelodau Côr Eryri siŵr iawn, sy'n dal i gyfarfod yn rheolaidd i ymarfer yng Nghapel y Rhos, Llanrug.

Rocddem yn ymarfer ddwywaith yr wythnos ddechrau'r flwyddyn, yn paratoi ar gyfer cystadlu yng Nghystadleuaeth 'Côr Cymru' ar S4C, yng nghategori'r corau merched. Wnaethom ni ddim llwyddo i ddod i'r brig eleni ond cawsom ddiwrnod gwerth chweil yn Aberystwyth a chyfle i edmygu cin hunain ar y teledu wedyn ar y rhaglenni uchafbwyntiau!

Ocs rhai ohonoch yn cofio Meibion Llywarch yn dod draw i ganu yn ein Cyngerdd Nadolig blyneddol yng Nghapel Cysegr, Bethel, yn 2003? Daeth yn amser i ni ad-dalu'r gymwynas nos Sul, 8 Mai, a theithio draw i Rhydycha, ger Y Bala, i gymryd rhan mewn cyngerdd yng nghwmni'r Meibion. Unwaith eto roedd y Capel yn orlawn a'r canu'n ddigon i godi'r to!

Er mor hoff yw'r genod o deithio yma a thraw, mae bob amser yn bleser cael perfformio o flaen pobl yr ardal. Nos Fercher, 11 Mai, cawsom y fraint o gymryd rhan mewn Cyngerdd 'Lleisiau Llanrug' a drefnwyd gan Eglwys San Mihangel, Llanrug, yn Ysgol Brynrefail. Unwaith eto cafwyd gwledd o ganu yng nghwmni disgyblion yr Ysgol, Côr Plant Rygarug, Clychau'r Grug ac eraill.

Bellach mae'r Côr yn brysyr yn ymarfer ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, yn y gobaith y cawn lwyddiant tebyg i'r hyn a gawsom pan ddacthom yn ail yn Eisteddfod Meifod yn 2003.

Os am drefnu noson gyda'r Côr, ffoniwch yr arweinyddes Sian Wheyway, ar (01286) 872001.

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?  
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCN

{01286} 650247 neu {07780} 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

## Glanhau eich Cartref?



Gwasanaeth ym mro'r Eco  
Safon uchel am bris rhesymol

Cysylltwch â:

Janet ar 07766 880650

neu

Sharon ar 07748 626607



## COFIANT

Roeddwn yn falch fod Gwasanaeth Dadorchuddio'r Gofeb i laddedigion a holl weithwyr y Chwarel yn yr Allt Ddu yn Ninorwig wedi bod yn weddus ac yn llwyddiant, ac elfennau'r mynydd wedi bod yn garedig.

Pan ddaeth Joan adref oddi yno gofynnais iddi:

'Pwy welist ti?'

'Plant y chwarael,' meddai.

Yn amserol deuthum o hyd i'r cofiant isod yn rhifyn Mai o'r Cyfaill Eglwysig 1898.

### BYR GOFIANTAU

Rowland Jones, Llanddeiniolen  
Mae gennyf y gorchwyl galarus o gofnodi marwolaeth y gwr ieuanc, prydferth uchod, yr hwn a gyfarfu â damwain angeuol yn Chwarel Dinorwic dydd mawrth, Mai 17, 1898. Mab ydoedd i John R. Jones, churchwarden. Gellir dweyd iddo ef gofio ei Greawdwr yn nyddiau ei ieuenctyd; o blegid nid oedd ond 15 oed. Yr oedd yn aelod cysson o ddosbarth y dynion ieuainc ac o'r Ysgol Sul, yn nosbarth ein parchus reithor. Llawer gwaith y dywedodd ar ol dyfod adref o'r Ysgol Sul, 'O, fy mam, mi fuaswn yn caru pe buasai y Sul yn Ysgol Sul ar ei hyd.' Yr oedd ei ewyllys yng nghyfraith yr Arglwydd ac yn myfyrto yn ei gyfraith Ef ddydd a nos. A dydd Sul, Mai 15, yr oedd ef yn rhoddi yr hen bennill adnabyddus hwnnw allan i'w ganu yn yr Ysgol Sul, 'Dyma Feibl anwyl Iesu,' am y tro cyntaf erioed. Yr oedd wedi cael ei gonffirmio ychydig cyn y Pasc diweddfar ac wedi dyfod yn gymmunwr cysson. Yr oedd efe a'i dad yn gweithio yn y maes nos Lun ar ol dod o'r chwarel. 'Fynhad,' meddai, 'y mae yn rhaid i ni ddal ati yn hwyr heno, dd'of fi ddim atoch chwi nos y fory. Yr wyf yn myned i gasglu at y Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Gristionogol' (S.P.C.K.) ond ni welodd efe y noson hon, yr oedd wedi myned at Dduw yr Iw'n a'i rhoddes. Dydd Sadwrn, Mai 21,

daeth tyrfa luosog i hebrwng ei weddillion marwol i hen fynwent gyssegredig y plwyf, pryd y gweinyddwyd gan y Parchn. D. O. Davies, rheithor; R. Jones, rheithor Gyffin Conway; a D. P. Thomas, curad. Dydd Sul canlynol pregethodd ein parchus reithor bregethau angladdol foreu a hwyr yn hynod effeithiol. Nodded y nefoedd fyddo dros y teulu galarus yn eu profedigaeth chwervw. — IOAN WYN.

\* \* \*

Cofnod ydyw o Rolant, brawd fy Mam, yn 15 oed.

Ioan Wyn oedd John Edward Williams, Rhyd y fuwch, Erw Fforch, Bethel, clochyd Llanddeiniolen, bardd gwlad a hynafiaethwr, yn gyfaill i deulu trallodus Llan Isaf. Yr oedd yno dair chwaer, oedd yn hoff iawn o'u brawd bach, ac eisoes yn amddifad o fam.

Roedd fy nhaid, John Rowland Jones, yn dal i greigio yn Ninorwig. Am rai tebyg iddo fo y canodd W.J. Gruffydd,

'Chwyddodd gyfoeth gwr yr aur  
a'r Faenol  
O'i cnillion prin a'i aml gur.'

Bum yn dychmygu ei siwrne ddyddiol, drymlyd heibio'r fynwent ac i lawr lôn ddi-ddiwedd Parciau Rhos at y trê, heb gwmni ei fab bychan oedd wedi bod yn gydymaith iddo ers yn dair ar ddeg oed.

Un arall o blant y chwarael.

O.N. Roedd John Rhyd, fel y gelwid ef, yn daid i Frederick Williams, gynt o Erw Bian, Saron, Bethel. Mae yma lun ohono tu allan i Eglwys Llan yng nwhmni yr hen Reithor, y Parch D. O. Davies, a thwr o blant yr Ysgol Sul, debygwn, yng ngofal athrawes anhysbys.

Mae'r llun ar gael (ar gais o'r cyfeiriad isod) John Ellis Williams, gynt o'r Gors, Llanddeiniolen, Allt Riwth, Pontrhythallt, Llanrug. LL55 3BD.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos lau, 21 Ebrill, daeth yr aelodau ynghyd i'w cyfarfod yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri dan lywyddiaeth Pat Jones.

Croesawodd y llywydd Mr John H. Hughes, Llanberis, i'r cyfarfod a rhoddwyd sgwrs ddifyr ganddo yn darlunio'r ymateb i sefyllfaoedd amrywiol dan y testun 'Chwerthin'. Roedd y lluniaeth i ddilyn wedi ei baratoi gan fwy'r Ganolfan.

Yn ystod cyfarfod nos lau, 19 Mai, bu trafod ar Yr Argymhellion ar gyfer Cyfarfod Blyneddol Cenedlaethol y mudiad yn Llundain, ynghyd â sgwrs gan Gemma Jones ar y testun 'Diwenwyno'r Corff'.

CRONFA EISTEDDFOD ERYRI A'R CYFFINIAU. Yn dilyn hysbysiad yn rhifyn Tachwedd 2004 o'r Eco yn gwahodd rhoddion i'r Gronfa, mae'n galonogol nodi fod nifer wedi cyfrannu yn hael ond nid ydym fel pentrefwyr wedi cyrraedd y nod disgwylidig. A'r amser yn dod i gau pen y mwdwl, gwneir apêl derfynol i'r rhai ohonoch sydd heb eto gyfrannu ac yn dymuno gwneud hynny i anfon eich cyfraniad yn ddiymdroi i'r Cynghorydd Cymuned lleol, Mrs Pat Jones, Cae Coch.

PROFEDIGAETH Daeth y newydd trist am farwolaeth Eurwen Chesworth (gynt o 5 Minffordd) ar Fai 1af, yn 56 mlwydd oed. Bu'r angladd yn eglwys y Santes Helen, Penisarwaun ar Fai 11eg ac yn dilyn yn y fynwent. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i phriod, ei thair merch, ei mam Mrs Grace Ellen Pritchard, sydd ar hyn o bryd yng Nghartref

Nyrsio, Penisarwaun, ei brawd Alwyn, a pherthnasau agos iddi yn y pentref.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS. Nos lau, Mai 12fed dan lywyddiaeth Mr Dafydd G. Ellis, Gweledfa daeth cynulliad da o'r aelodau i'r Ganolfan i ail gyfarfod y Gymdeithas. Cyflwynwyd y gwr gwadd, sef y Parch Gareth Maelor gan y llywydd — y ddau yn hannu o ddwy ardal gyfagos, Dolwyddelan a Thanygrisiau. Priodol felly oedd y cyflwyniad a oedd yn cyfeirio yn y diwedd at fro Yr Esgob William Morgan gerllaw i arwain at y sgwrs oedd i ddilyn ar y testun 'Troi tudalen...'

Fe'n tywyswyd yn ddiddorol iawn drwy gryn ddwsin o gyfrolau a drysorid gan y siaradwr gwadd. Cafwyd gair o ddiolch gwresog ar y terfyn gan y llywydd. Paratowyd y lluniaeth i ddilyn gan Joan Williams a Lowri Roberts Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau Mehefin 9fed yn y ganolfan pryd y disgwylir Mr John H. Hughes, Llanberis i roi sgwrs. Y cadeirydd fydd Mr Gwyn Hefin Jones.

### OEDFAON MEHEFIN

- 5: Mr Merfyn Jones, Caernarfon am 5.30
- 12: Mr John McBryde, Brynrefail am 10.00
- 19: Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 5.30
- 26: SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU  
Cyfarfod am 2 o'r gloch yn Eglwys Crist Llandinorwig.

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Mrs Bet Williams, 8 Coed y Glyn, ddiolch yn fawr i'w theulu a ffrindiau am y cardiau ac am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac hefyd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar 12 Ebrill. Mae wedi cartrefu yn y Foelas, Llanrug ar hyn o bryd.

DYMUNIADAU GORAU i Arwyn H. Roberts, Stryd y Ffynnon, ar gyrraedd pen-blwydd arbennig, sef 50 oed, ar 11 Mehefin.

DYMUNA Dilys Mai Roberts, Yr Haciau, ddiolch o galon i bawb a wnaeth achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 6 Mai mor hapus a (di-

boen). Diolch am yr anrhegion, cardiau, blodau a'r deisen flacus, ac am y penillion canmoladwy a gefais gan ddau fardd enwog. Diolch hefyd i Gôr Lleisiau Lliwedd am drefnu noson allan yng Ngwesty Dol Peris ac am yr hwyl, y chwerthin a'r tynnu coes. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Mrs Glenys Jones, 1 Maes Padarn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd pan oedd yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Mae yn gwerthfawrogi yr oll yn fawr iawn. Diolch yn fawr.

**Dodrefn Da am Bris Discount**  
THE SALES HALL  
Y NEUADD ARWERTHIANT  
**CWM-Y-GLO**  
Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadciriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: LLUN - SADWRN 10.30 - 5p.m.

**E. W. Pritchard**  
**CENTRAL GARAGE**  
**Llanberis**

**Ffôn: (01286) 870202**

**TREFNWYR ANGLADDAU**  
**CEIR AR GYFER PRIODASAU**



# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

**YN EISIAU AR FRYS:**  
**PERSON I DORRI GWAIR**  
**AR LWYBRAU CYHOEDDUS**  
**RHIWLAS**  
**A BETHEL.**

Cysyllter â'r Clerc: John B.  
Jones, Ceris, Deiniolen. LL55  
3LU, Ffôn: 01286 871 416  
\* \* \*

Cynhaliwyd Cyfarfod blynyddol  
y Cyngor ar 3 Mai, 2005.

**Offrymwyd gweddi** gan Richard  
Ll. Jones.

**Swyddogion y flwyddyn**

Cynigiwyd yr Is-Gadeirydd  
Hefin Williams yn Gadeirydd a  
Pat Jones yn Is-Gadeirydd.

**Datgan buddiant**

Dafydd Morris ar dudalen 119 o  
gofnodion Ebrill.

**Cofnodion y 12ed o Ebrill**

**Cywiriadau:**

Len Jones: wedi datgan buddiant  
cyn trafod rhodd (Eisteddfod yr  
Urdd) i ysgol Brynrefail.

Len Jones: Cyngor Gwynedd yn  
bwriadu cael wardeiniaid  
cymunedol yn ôl ond nid yw  
hynny wedi digwydd eto.

**Derbyniwyd y cofnodion, fel**  
arall, yn rhai cywir

**Materion o'r cofnodion**

Ateb 'Swyddfa Archwilio Cymru'  
mai camgymeriad gweinyddol  
oedd yn gyfrifol am yr adroddiad  
uniaith Saesneg.

**Cae Rhedyn, Clwt y Bont**

Cadarnhad Adran Cynllunio  
Gwynedd eu bod yn ymchwilio  
i'r mater.

**Tir dros y ffordd i'r Swyddfa**  
**Bost, Clwt y Bont**

Gwynedd wedi gofyn i Mri E. J.  
Horrocks symud y compownd a'r  
cynhwysydd i leoliad na fydd yn  
amharu ar y tai.

**Y ffordd o Gors Bach at Gelli**  
**Gyffwrdd**

Ateb Gwynedd eu bod eisoes  
wedi gofyn am bris i wella'r  
ffordd ond nid oes sicrwydd y  
bydd cyllid ar gael.  
Penderfynwyd awgrymu i  
Wynedd y dylai'r atyniad  
gyfrannu at wella'r ffordd.

**Capel Maes y Dre**

Derbyniwyd ateb Gwynedd  
ynghlŷn â'r garrwg goffa. Trefnir  
cyfarfod â'u swyddog ar y safle.

**Adran yr Urdd, Bethel**

Derbyniwyd llythyr i ddiolch am  
y cyfraniad ariannol.

**Y Grŵp Cymunedol**

Amlygwyd adwaith swyddogion  
Gwynedd y buasai'n hwylyusach  
cyfarfod yn ystod y dydd. Bydd  
aelodau'r Grŵp ar gael ond yn  
amffodus ni fydd y Gadeirydd,  
Len Jones. Penderfynwyd  
gwneud trefniadau i gyfarfod a  
gwirfoddolodd Dafydd Morris  
ac syll i mewn yn lle Len Jones.

**Cysgodfannau Bwsiau**

Eglurodd y Clerc bod Mri G. L.  
Jones, Bethesda, wedi bod o  
gwmpas yn eu gwneud yn

ddiogel. Symudwyd dau banel o  
Rydfadog, Deiniolen, i  
Benisarwaun am bod cyflwr  
gweddill y gysgodfan honno yn  
well.

**Walïau cynnal**

Cylchredwyd disgrifiad  
Gwynedd i bob aelod ond nid  
yw'n hawdd ei ddeall.  
Awgrymodd Len Jones wahodd y  
swyddog perthnasol i gyfarfod y  
Cyngor.

**Eisteddfod Eryri a'r Cyffiniau**

Dyweddodd y Clerc bod praecept  
Gwynedd am hanner blwyddyn  
wedi ei dderbyn, ac y gellid  
cyfrannu'r £3,000 sy'n gwneud y  
cyfanswn yn £6,000.

Dyweddodd Richard Ll. Jones  
bod 95% o ddisgwyliad yr  
Eisteddfod o gymuned  
Llanddeiniolen cisocs wedi ei  
gyrraedd.

**Gohebiaethau Eraill**

Derbyniwyd *Canllawiau ar*  
*Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio*,  
Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyfeiriodd y Clerc at wahoddiad  
Eleri Hughes, o'r Herald, i  
gyhoeddi adroddiad y Cyngor yn  
y papur bob mis. Penderfynwyd  
aros i weld ymateb y Cynghorau  
Cymuned craill.

*Rhwydwaith Beicio Peris*.  
Cyhoeddiad bod y gymdeithas  
yn gorffen.

*Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd*.  
Darllenwyd llythyr y bwrdd yn  
disgrifio eu bwriad i ddarparu  
hyfforddiant ac addysg addas i  
gynorthwyo cleifion cronig a'u  
gofalwyr tymor hir.  
Penderfynwyd gofyn am fwy o  
wybodaeth.

Gofynnwyd ai bwriad i leihau  
cyfrifoldeb yr Awdurdod Iechyd  
yw hyn. Dywedodd Len Jones  
bod rhai cleifion tymor hir yn  
cael £150 yr wythnos i gyflogi  
gofalwyr, mae'n anodd i rai sâl  
iawn gwneud hyn.

Ychwanegodd Mrs Larsen ei  
bod yn annheg disgwyl iddynt  
fod yn gyfrifol am dreth incwm,  
ayyb.

*Un Llais i Gymru*. Derbyniwyd  
cofnodion 'Cyfarfod Ardal  
Arfon', a gynhaliwyd ar 6 Ebrill.  
Nid oedd neb o gyngor  
Llanddeiniolen yn bresennol am  
na chafwyd digon o rybydd.  
Chwe chyngor yn unig a  
gynrychiolwyd.

*Senedd '04 Machynlleth*. Nodwyd  
y bwriad i ailagor y senedd fel  
fforwm democrataidd parhaol.  
Daw mwy o wybodaeth eto am  
aelodaeth.

**Rfyrdd**

Dyweddodd Aled Green bod  
eiddau yn tyfu allan i'r ffordd  
ger Winllan - llythyr i Wynedd.

Soniwyd eto am addewid  
Gwynedd i osod gwyneb 'anti  
skid' ar yr A4244, Groeslon Isa.  
Llythyr i'w hatgoffa a chyfscirio  
at y gosodiad ar gylchfan  
Groeslon Ty Mawr!

Bydd angen llythyr i Ysgol  
Rhiwlas yn cadarnhau mai Hefin  
Williams fydd cynrychiolydd y  
Cyngor ar y bwrdd  
llywodraethwyr.

**Llwybrau**

*Tyddyn y Felin, Penisarwaun*:  
Gorchymyn Cyngor Gwynedd o  
wriad llwybr 134.

*Lwybr 34, Pen yr Incleir, Clwt-y-*  
*Bont*: Ateb Gwynedd yr  
adnewyddir y pibellau dŵr a'r  
gamfa yn fuan. Hefyd gosodir  
pibellau newydd ar ran isa'r  
llwybr yn ymyl Ger yr Afon.  
*Llwybr 36*: angen trafod eto  
gyda'r trefeddiannwr.

*Llwybr 37*: mae trefniant wedi ei  
wneud gyda'r trefeddiannwr i  
osod pibellau newydd ac agor  
ffos yno.

*Llwybr 106, ger Bryn Tirion*,  
*Deiniolen*: Giât newydd a thorri'r  
gordyfiant ar raglen waith  
Gwynedd.

*Llwybr 44, Gorlan y Bont*,  
*Deiniolen*: Cadarnhad Gwynedd  
bod cytunb rhwng y  
perchennog a'r Adran Tai ynghlŷn  
â wyneb newydd, gan bod y  
gwaith grant ar y safle yn dod i  
ben. Darperir rhaglen waith gan  
Wynedd i gau tyllau a glanhau'r  
llwybr yn is i lawr i gyfeiriad  
Pont Felin Uchaf.

*Llwybr 73, Carreg y Gath*,  
*Rhiwlas*: Addawodd Gwynedd y  
gosodir pibell newydd yn lle'r  
cwlfer sydd wedi dymchwel.  
Mac dracn wedi ei hagor yno  
dros dro, tan i'r gwaith gael ei  
gwblhau.

**Torri gwair ar lwybrau'r**  
**gymuned**

Trafodwyd y drefn arferol ac  
addawodd y Clerc ddanfôn rhestr  
o'r llwybrau i'r aelodau.  
Penderfynwyd hysbysebu yn  
*Eco'r Wyddfa* bod angen torrwr  
gwair ar gyfer llwybrau Rhiwlas.

**Cynllunio**

**Ceisiadau a ganiatawyd gan**  
**Wynedd:**

Addasu Tŷ o'r Hen Fecws,  
Deiniolen.

Estyniad: Ynys Llech Arian,  
Llanddeiniolen.

Adeiladu Stablau: Rhif cae 7770,  
Stablau.

Ailosod llawr: Amgueddfa Lechi  
Cymru.

Estyniad: 12 Stad Eryri, Bethel.

Addasu adeilad i ddwy Uned  
Wyliau ac Anecs: Felin Uchaf,  
Pentir.

**Ceisiadau a dderbyniwyd:**

Estyniad: Cymerau, Bethel.

Estyniad: Bryn y Gwynt,  
Marchlyn, Dinorwig.

Dymchwel ysguboriau, ymestyn  
y tŷ ac adeiladu Stablau: Cae  
Metta, Llanrug.

Estyniadau a newidiadau:  
Lleifior, Nant y Garth.

Estyniad ar gyfer modurdy: Ty'n  
y Gadlas, Pentir.

Ymestyn Gorsaf Betrol ac  
estyniad i'r Siop: Gorsaf Beran.  
Deiniolen.

Sied Amaethyddol: Pen y Bryn,  
Rhos y Marchlyn, Dinorwig.

Estyniad: Maes y Dderwen,  
Bethel.

**Ceisiadau a wrthwynebwyd gan**  
**y Cyngor**

Estyniad: 1 Tai Newyddion,  
Penisarwaun.

Estyniad a newidiadau: Cae'r  
Moel, Gallt y Foel, Deiniolen.

Addasu adeilad allanol i dŷ:  
Waen Rhythallt, Llanrug.

**Materion ychwanegol**

Dyweddodd Len Jones y bydd y  
busnes newydd yn dechrau yn yr  
hen *Liptons*, Deiniolen, yn fuan.  
Dyweddodd hefyd bod gobaith y  
bydd y teithwyr? yn symud o faes  
parcio Marchlyn Mawr cyn  
diwedd y Mis.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7ed o  
Fehefin.

**am help:**

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



**cysylltwch â Mantell Gwynedd**

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

**SNOWDONIA PARK**  
**WAUNFAWR**

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

**Ffôn: 650218**



## PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407



**PRIODAS.** Pob dymuniad da i Glyn Rhys Jones a Bethan Williams, Talsarnau, ar eu priodas dydd Sadwrn, 22 Ebrill. Dymuna'r gwrwl ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a chydweithwyr am yr holl anrhegion a phob dymuniad da a dderbyniwyd ar yr achlysur.

### YR YSGOL GYMUNED

**Sioe Ffasiynau.** Cynhaliwyd un yn yr ysgol ar nos Lun, 21 Mawrth a gwerthwyd nifer o ddillad ar y noson. Diolch i bawb gefnogodd. **Llongyfarchiadau** i Catrin Jarvis ar ddod yn fuddugol yng nghystadlaethau rhaglen deledu WAA, gan ennill ffôn symudol.

Hefyd daeth Gerin Williams a Nia Esyllt yn bedwerydd yn y ras trawsgwlad yn Stad y Faenol.

**Cafodd Blwyddyn 1** gyfle i gymryd rhan yn y rhaglen deledu *Ribidies*. Bu'r plant yn brysur yn paentio cwt i'r crwbau byw oedd yn y stiwdio a threfnu parti pen-blwydd iddo. Roedd yn gant oed!

Rydym yn casglu Tocynnau Tesco yn yr ysgol. Buasem yn ddiolchgar am unrhyw docynnau sydd gennych.

### Gweithgareddau i'r dyfodol:

Rhoddir cyfle i ddisgyblion yr adran lau gystadlu yn y Gala Nofio ar fore'r 19 Mai. Pob lwc i bawb sy'n cystadlu.

Bydd cyfle i holl ddisgyblion yr ysgol, o'r Derbyn i Flwyddyn 6, fynd at y trôn bach i ben yr Wyddfa fawr ar 17 Mehefin. Bydd holl staff yr ysgol yn mynychu'r daith gan obeithio y bydd Mr Geraint George wedi cyrraedd y copa mewn da bryd i'n cyfarfod.

Bydd disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cael cyfle i weld cynhyrchiad gan Cwmni'r Fran Wen ar 20 Mehefin.

Eleni bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn mynd am drip i Sŵ Gaer gyda holl aelodau a staff yr ysgol. Gobeithio y bydd yr holl staff yn

cael dod adref!!!

**DYMUNIADAU GORAU.** Ar ran holl staff, y plant a Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Penisarwaun, dymunir ymddeoliad cynnar hapus i'r Prifathro, Mr R.O. Humphreys.

Estynnir croeso cynnes a llongyfarchiadau mawr i Mr Gareth Fôn Jones ar ei benodiad fel y Pennaeth newydd. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

**CRONFA'R PENSIYNWYR.** Enillydd pêl bonws Loteri mis Ebrill oedd rhif 31, sef Mrs Carole Porter, 4 Bron y Waun. Llongyfarchiadau, a diolch i bawb am y gefnogaeth.

**PRIODAS YN GRETNA GREEN.** Ein dymuniadau gorau i lola, merch Margaret a Gareth, Carrog, Waun, ar ei phriodas â John o'r Felinheli, ar 20 Mai, a hynny yng Ngretna Green, gyda'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg gan y Parch W.R. Williams. Byddant yn ymgartrefu yn y Felinheli. Pob bendith i'r ddau ohonoch.

**DIOLCH.** Dymuna Margaret ac Elyn a'r teulu ddatgan eu diolchgarwch am y llu cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a rhoddion yn dilyn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain addfwyn dros ben. Cyflwynwyd rhodd o £200 i Gartref yr Henoed, Y Foelas, Llanrug.

Hoffai Huw ac Eirian ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a gawsant ar achlysur cyhoeddi eu dyweddïad yn ddiweddar.

**COLLED.** Yn frawychus o sydyn, ar ôl cystudd byr gartref yn Gwyrfa, bu farw Myfi, annwyl wraig Gwyn a mam dyner Alison, nain arbennig, chwaer a chwaer yng nghyfraith hoff a modryb annwyl. Estynnir y cydymdeimlad llwyrfa â chwi fel teulu yn eich colled iern.

**GWELLHAD.** Da deall fod Arvon Jones, Llys y Gwynt, wedi gwella ar ôl cyfnod yn Ysbyty Llandudno. Cymerwch ofal.

Deallir hefyd fod loan, mab bychan Katy ac Emyr, Glyn Euron, wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd a'i fod bellach wedi gwella.

Ein cofion annwyl at bawb arall sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

**LLONGYFARCHIADAU.** Dymuna Pat a Leslie Larsen longyfarch eu ŵyr, Gwion Larsen, Caernarfon, ar ddod yn Bencampwr Cymru hefo Jiwdo. Pob dymuniad da eto i'r dyfodol oddi with Nain a Taid, Llygad yr Haul.

**PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Glwb Cant Mai a'r enillwyr lwcus oedd: Dafydd Ifans, Sycharth; Lois Larsen; Dafydd Williams, Meini Gleision.

Rydym yn dal i chwilio am fwy o aelodau: £6 y flwyddyn neu 50c y mis neu fe ellir ymaelodi drwy **Archeb Banc.** Mae'r elw yn hwb sylweddol tuag at gost o redeg y Neuadd Gymuned.

Rydym yn falch o allu dweud fod golau wedi ei osod y tu allan i'r brif fynedfa erbyn hyn, ar gyfer gweithgareddau gyda'r nos.

Ceir manylion am 'Miri Mai' a gynhaliwyd ar 20 Mai yn y rhifyn nesaf.

Gobeithir trefnu Taith Gerdded Llwybrau ym mis Medi, er mwyn eu cadw ar agor.

**CROESO** i Guto Harri, mab bach a anwyd i Rhian a Stephen, a brawd bach i Elin Prysor. Trysor bach arall i nain a taid, Avril a Geraint, Careb, gael gwirioni arno. Llongyfarchiadau i chwi fel teulu.

**YSGOL SUL BOSRA.** Bu'r plant yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr, Cylch Cwm y Glo yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, bawn Sul, 22 Mai. Stori am Lleucu Llaw, Gwen Gwefus a Tomos Troed oedd ganddynt - pob un yn defnyddio'i dalent i helpu eraill.

Ni ellid peidio cofio am un arbennig a ddefnyddiodd bob talent a feddai i helpu eraill a gwneud daioni drwy'i hoes, sef Anti Jean, Deiniolen - Jean Parc Jones - a melys fydd yr atgofion am y boreau bywiog a dreulwyd ar y cyd ag Ysgol Sul Ebeneser i godi arian i helpu eraill yn Kenya drwy'r elusen Cymorth Cristnogol.

Bydd yr aelodau yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid yn Ebeneser, Caernarfon ar 19 Mehefin. Trefnir bws i gynd yno.

**TRIP YR YSGOL SUL.** Bydd y trip eleni ar ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf, i Cheshire Oaks. Bydd cyfle i ymweld â'r Blue Planet Aquarium a'r Bowlio Deg, mae sinema yno hefyd a channoedd o siopau! Bwriedir galw yn y Ffair yn Rhyl ar y ffordd adref.

Gan mai bws 49 sedd fydd gennym hoffem dderbyn yr enwau cyn gynted â phosib, os gwelwch yn dda. Pris i oedolion fydd £8 a £4 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau rhag blaen i Liz (872421) neu Ann Paterson (872405). Bydd y bws yn cychwyn o Groesfordd King am 8.30 o'r gloch.

**CYMDEITHAS Y BEIBLAU.** Cynhelir Gwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd bawn Sul, 26 Mehefin yn Eglwys Llandinorwig am 2.00 o'r gloch yn unig. Gwneir casgliad tuag at y Gymdeithas. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 1.30 ac yn codi rhai o Glwt y Bont a Deiniolen ar y ffordd. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

**SBRI'R YSGOLION SUL.** Cynhelir Sbrî'r Ysgolion Sul, Henaduriaeth Arfon, bawn Sul, 10 Gorffennaf am 1.30. Dyma gyfle i'r aelodau wneud ffrindiau newydd a chael hwyl mewn gemau a gweithgareddau amrywiol. Bydd rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf. **EGLWYS SANTES HELEN.** Ar 1 Mai, gyda'r Parch Tegid Roberts yn gweinyddu, bedyddiwyd loan Grant ac Enlli Mai, mab a merch Emyr a Katy, Glyn Euron.

**ARHOLIADAU!** Pob dymuniad da i bob un ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau. Mwynhewch eich gwyliau wedi'r gweithio caled.



**J.M. JONES**  
**A'I FEIBION**  
**GWAITH CERRIG BEDDAU**

### Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)  
676285 (nos)

## H. E. HUGHES

### A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys LLANBERIS

## FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

### DIGWYDDIADUR MAI

1-2: Penwythnos **CELLOSCOP**

1: Cyngerdd Cyhoeddus yn Galeri Caernarfon gan y Pumawd Cello sy'n cynnwys aelodau o Gerddorfa Hallé 7.30 y.h.

2: **Gwylfael Cello** ar gyfer myfyrwyr o bob oed a chyrhaeddïad. Manylion o'r Canolfan (01286 685230) e-bost: [clmorgwm@iscali.co.uk](mailto:clmorgwm@iscali.co.uk) neu [cgmw@lincout.net](mailto:cgmw@lincout.net)

21: Cyngerdd Dathlu 10 Mlynedd y cwmni gan diwtoriaid a myfyrwyr Canolfan Gerdd William Mathias gan gynnwys Iwan Llewelyn Jones (Pianydd); Elinor Bennett (Telynnoes); a Mary Lloyd Davies (Soprano) 7.30 y.h. Tocynnau £2. Plant £4.

22: **Bwytfael Cello** i atgylchwrdd ym 10.00 o'r gloch. Ddodwch i atgylchwrdd piano gyda Iwan Llewelyn Jones. Tocynnau o'r Canolfan Gerdd.

Rhif ffôn: (01286) 685230  
e-bost: [cgmw@lincout.net](mailto:cgmw@lincout.net)

**Canolfan Gerdd**  
**William Mathias**



## NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

CLWB CANT EGLWYS SANT PERIS. Enillwyr mis Ebrill oedd £25: Mr Dafydd Jones (diolch iddo am gyfrannu'r arian at apêl yr eglwys ar ran Bleddyn Jones); £10: Mrs Sylvia Kelly; £5: Mrs

Eleri Mullane.

Dymuna Cyfeillion Eglwys Sant Peris ddiolch am y gefnogaeth a gawsant i sefydlu'r Clwb Cant. Bydd yr elw yn mynd tuag at gronfa adnewyddu'r eglwys.



Plant Nant Peris, 1920.



Plant Nant Peris, tua 1922. Y diweddar Owen Humphreys (Bro Rhyddallt) yw'r bachgen bach ar y dde yn y rhes flaen yn y ddau lun a'i chwaer yn eistedd tu ôl iddo yn y llun hynaf.

## HOGIA' NANT - IECHYD DA



Daeth y llun yma i law o griw Nant draw ym mudiad y diweddar Twm Closs erbyn hyn, yng Nghaerdydd tua 1961. Yn glychu gyddsfau mae: Ken Beudy Mawr, John Closs (gwastad priodas), Twm Insitwans, Wil Ty'n Ffynnon, Wil Sgeiriau ac Eleni Presley (Wil Arthur).

## CESTYLL BOWNSIO



ar gyfer pob achlysur



MÔN



MENAI

Holwch am ein atyniad arall ar gyfer plant ifanc

Ffôn: Philip (01248) 714068

07600 964713

## LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

MERCHED Y WAWR. Ar nos Fawrth, 10 Mai, aeth aelodau'r gangen i erddi Menter Fachwen i weld arddangosfa o fasgedi crog, ayyb. Roedd popeth yn werth ei weld, gyda lliwiau godidog y blodau, y defnydd artistig o ddail a chreadigaethau allan o'r cyffredin.

Wedyn aeth pawb ymlaen i'r Caban, Cwm-y-glo, lle cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen dros baned a chacennau blasus. Diolchodd Eryl, y Llywydd, i staff y Caban am eu croeso twymgalon, talodd ddiolch i Heulwen am fod yn Ysgrifennydd cydwybodol drwy gydol y flwyddyn, i Meryl am wneud ei gwaith mor drylwyr fel Trysorydd, ac i Olwen am drefnu'r wibdaith.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jean Roberts, Anwen Owen a Mrs Whiteside Thomas. a derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynnyddol 2004 fel rhai cywir. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2005/2006: Is-lywydd: Nan; Is-ysgrifennydd: Linda; Is-drysorydd: Mary; Cynrychiolwyr ar yr Is-Bwyllgorau Rhanbarth - Chwaraeon: Pat; Celf a Chrefft: Ann Lloyd; Anabl: Beryl. Dysgwyr: Phyllis; Gohebydd y Wasg: Mary; Dosbarthwr y Wawr: Olwen. Yn ystod 2005/2006, y Llywydd fydd Bethanne, yr Ysgrifennydd fydd Olwen a bydd Pat yn Drysorydd.

Llongyfarchwyd Meirwen ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Cynhelir Bore Coffi gan yr Is-bwyllgor Anabl yn Festi Capel Ebeneser, Caernarfon, ar 27 Mai, rhwng 10 y bore a hanner dydd. Cynhelir Penwythnos Preswyl y Mudiad yng Nghaerdydd rhwng 9-11 Medi. Cynhelir gweithdy yn Neuadd yr Eglwys, Cricieth, ar fore Sadwrn, 18 Mehefin, ar gyfer paratoi Pabell Merched y Wawr yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Enillwyd y raffl gan Avril.

Cynhelir gwibdaith ar nos Fawrth, 21 Mehefin, a bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 6 o'r gloch.

DIOLCHIADAU Dymuna Alun a Ffion, Pistyll Cain, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Hefyd, fe ddymuna Ian a Helen Parry, Bryn Ffynnon, Ffordd Fictoria, Caernarfon, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur geni eu mab bach, Tomos Llŷr.

PRIODAS. Dymuniadau gorau i Glyn Rhys Jones a Bethan Williams, merch Gareth a Renee Williams, Rhos Rug, ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuna'r cwpwl ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion, cardiau a dymuniadau da dderbyniwyd ar yr achlysur.

DYMUNIADAU GORAU. I Angela Jones, 12 Nant y Glyn a Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Brysiwch wella yn dilyn triniaethau yn yr ysbyty.

PROFEDIGAETH. Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro, Mrs Mair Jones, Glan Moelyn a Mr Dick Jones, Rhos Rug a'r teulu yn eu profedigaeth o golli eu chwaer yn Llundain yn ddiweddar.

Bu farw Mr John Rowlands, Llys Forgan, Ffordd yr Orsaf, yn dra sydyn ar 9 Mai. Bydd colled fawr i'w wraig, Eurwen, y meibion Arwel a Geraint a'u teuluoedd, ei chwiorydd

a'i frawd, ac i'r holl gymdogion a ffrindiau lu. Cydymdeimlwn yn arw â'r teulu.

PICNIC YN Y CAPEL. Roedd gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Rhos fore Sul, 15 Mai. I ddathlu'r Pentecost, sef pen-blwydd eglwys Crist, torrwyd cacen ben-blwydd a'i rhannu ymysg y gynulleidfa. Cafodd pawb ddarn ohoni a phawb yn ei chanmol a'i mwynhau. Ond roedd hefyd yn wasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol a chawsom ein hatgoffa am y newyn a'r angen mawr sydd mewn rhannau o'r byd heddiw. Mae'n siŵr y bydd pobl Llanrug yn hael fel arfer yn eu cyfraniadau yn ystod wythnos Mai 15-21.

Athrawon a phlant yr Ysgol Sul oedd yn cymryd rhan yn y gwasanaeth, ac yr oedd yn bleser eu gweld a'u clywed yn darllen a chanu, llond y sêl fawr ohonynt ar adegau. Roedd sglein ar eu gwaith, diolch i ymroddiad yr athrawon. Rhannwyd tystysgrifau i'r plant am ddysgu eu maes llafur gan Meirwen Lloyd a'r Gweinidog, y Parch. Dafydd Hughes, ac mae'n amlwg bod gwaith mawr yn mynd ymlaen ymysg plant Capel y Rhos. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Gweinidog a Mair Hughes, a chyfeiliwyd gan Ann Thomas a Sian Wheway.

DIOLCH: Dymuna Mrs Annie Jones, Eilionwy, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'r holl gymdogion, ffrindiau, meddygon, nyrsus a'r teulu am eu holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn gant oed. Diolch o galon i bawb yn Y Bedol, Bethel, am eu brwdfrydedd a'u medrusrwydd gyda pharatoadau'r parti.

Diolch hefyd i Glan Aber, Betws y Coed, am drefnu parti i'r teulu ar y Sul. Dymuniad Annie oedd cael cyfrannu arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd i achosion da lleol. Mae pum sic wedi eu cyflwyno i Antur Waunfawr, Sefydliad Coffa, Llanrug, Capel y Bryngwyn, Nyrsus Llanberis a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Gyda diolch gwresocaf am eich haelioni.

Y SEFYDLIAD COFFA.

Enillwyr clwb Cant mis Mai oedd £20: Mrs B. Peris Jones, d/o 12 Hafan Elan, Llanrug; £7: Mr A. Parry, Bryn Heli, Llanrug; £5: Mr G. Hughes, Eithinog, Afon Rhos, Llanrug.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr i Laura Beard, Stad Minffordd, ar ei phen-blwydd yn 18 oed y mis yma. Roedd ei chwaer, Kate, hefyd yn 21ain. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonoch.

GWELLHAD BUAN. Dymuniadau gorau i Mrs Kathleen Jones, Kemaud, 3 Ffordd Glanffynnon, yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

YR YSGOL GYNRADD

Chwaraeon yr Urdd.

Bu amryw o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y cystadlaethau Traws Gwlad ar gaeau y Faenol. Roedd y noson braf a phob un a gymerodd ran wedi mwynhau ac wedi derbyn medal am eu hymdrech. Trefnwyd y noson ar y cyd rhwng yr Urdd, Campau'r Ddraig a PES.

Pêl-droed saith-bob-ochr.

Aeth tîm pêl-droed y bechgyn i gymryd rhan yn y cystadlaethau pêl-droed dan 12 oed. Chwaraeodd y tîm yn dda iwn ond tîm Ysgol y Gelli ddaeth yn fuddugol.

(Parhad ar dudalen 19)



## UN FUNUD FACH

### RHEWLIF

'Aw! 'Dwi 'di brifo! 'Dwi isio plastr!'

Draw yn Awstria a'r Swistir nid plant yn unig sy'n gweiddi felly erbyn hyn. Mae'r mynyddoedd yn gweiddi hefyd, neu o leiaf y rhewlif ar eu llethrau. Ac ar y newid yn y tywydd y mae'r bai: y Cynhesu Byd-eang y clywsom gymaint amdano'n ddiweddar. Mae'n debyg bod rhewlifoedd dan fyngthiad ar draws y byd, â phobl yn gweld y rhewlif yn cilio ac yn lleihau yn amlwg o flwyddyn i flwyddyn. Ac ar wahân i unrhyw effaith amgylcheddol ar ein byd, mae pobl yn ofni'r effaith economaidd y gallai dirywiad y rhewlif ei gael mewn llyfdd sy'n dibynnu ar y diwydiant twristaidd a'r diwydiant sgïo. Mae llai o rewlif yn golygu llai o sgïo, a llai o ymwelwyr, a llai o arian. A dyna pam bod deunydd arbennig, rhyw fath o blastr enfawr, yn cael ei osod dros y rhewlif ar rai o fynyddoedd Ewrop. Mae'r 'plastr' yn help i ddiogelu'r rhewlif rhag y gwres ac yn lleihau dirywiad y rhewlif.

Ond dim ond plastr ydyw. Ac fel y gwyr pawb, nid yw plastr yn gwella'r un clwyf. Mae plastr yn help, ond dyna'r cwbl ydyw. Yr hyn all achub y rhewlif yw delio â'r hyn sy'n gyfrifol am y Cynhesu Byd-eang ei hun, a dyna pam bod gwyddonwyr yn pwysleisio'r angen i leihau'r nwyon peryglus sy'n cael eu gollwng i'r awyr. Hynny yn unig a all ddiogelu'r rhewlif. Ar y gorau, help bychan dros dro i friwiau'r rhewlif fydd y plastr hwn.

A gallwn osod plastr dros friwiau'r eglwys a briwiau'r byd. Gallwn geisio bywhau ein heithgarwch, a chreu pob math o weithgarwch, a gwella'n hadeiladau, ond plastr ar friw yn hun fydd y cyfan heb i'r briw ei hun gael ei wella. Pan dry'r eglwys o ddifrif at Dduw mewn edifeirwch a ffydd a mawr; pan eilw'r eglwys o waelod calon am drugaredd yr Arglwydd, bydd gobaith trin y briw. A gallwn geisio gwella briwiau'r byd, ac annog cariad brawdol, a phledio cyfiawnder a heddwech, a meithrin mudiad, ond plastr ar friw fydd hynny hefyd heb fynd i'r afael â'r clwyf gwaelodol. Yr unig ffordd o wella'r byd yw gwella calonnau ei bobl, a'r unig ffordd o wneud hynny yw trwy'r Gwaredwr a roddwyd i ni yn Iesu Grist. Ef sy'n cymodi pobl ac yn rhoi iddynt yr awydd a'r gallu i garu.

Ydy, mac'r byd, a'r eglwys, yn brifo, ac mae angen mwy a gwell na phlastr arnom.

JOHN PRITCHARD

Bum mis yn ôl roedd Jean yn ei helpen yng ngwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul. Roedd wedi trefnu'r gwasanaeth a llunio sgript Drama'r Geni, wedi dewis caneuon, wedi rhannu'r gwaith, wedi cynnal ymarferion, ac wedi dal y cyfan ynghyd yn ei ffordd drefnus ei hun. Eisteddai o flaen y plant a gwyddent hwythau y byddai Anti Jean yn eu helpu trwy'r oedfa. Wedi'r oedfa roedd pawb yn canmol; a Jean, mor ddiymhongar ag erioed, yn diolch am ymdrech a chymorth y plant a'r athrawon.

Pan oedd Jean yn ddifrifol wael yn Ysbyty Eryri, dywedodd un o'r nysrus a fu'n gofalu amdani y byddai wedi hoffi gweld llun o Jean yn ei hiechyd a'i chryfder. Ni allaf feddwl am well llun na'r oedfa Nadolig honno. Dyna Jean i chi: y Cristion da, yn gwbl ymroddedig yn ei gwasanaeth i'w Harglwydd; un o'r anwylaf o blant Duw wrth ei bodd yn dysgu a gwasanaethu plant bach a mawr; yn llawn hwyl ac yn benderfynol o gyflwyno'r gwerthoedd Cristnogol yr oedd hi wedi eu trysori i genhedlaeth arall o blant ei phentref.

Adwaenid Jean wrth ddau enw: 'Jane' oedd hi i'w chyfeillion coleg a'i chydweithwyr, a 'Jean' i bobl Deiniolen a'r cylch. Ond lle bynnag yr clai, a beth bynnag a wnâi, un enw oedd iddi, sef enw da: yr enw o fod yn gymeriad gonest a gweithgar; yn ffrind ffyddlon a ffeind. Pa gylch bynnag y troai ynddo, a pha fudiad bynnag a wasanaethai, yr un person oedd hi bob amser; a'i chysondeb a'i geirwiredd yn amlwg ym mhopeth a wnâi.

Roedd Jean yng nghanol cymaint o bethau da yn ei bro. Ac ym mhob peth yr un fu'r stori: rhoi o'i gorau gyda brwdfrydedd mawr. Byddai'n mwynhau'r gwmniacth ac yn gwerthfawrogi ymdrechion pobl eraill. Byddai'n ysgrifeddu cyfrifoldeb ac yn gwneud beth bynnag a allai dros y achos. A bu sawl achos: Eisteddfod Gwaun Gynfi; Côr Clychau'r Grug; Plaid Cymru; amrywiol Bwyllgorau Apêl; Cronfa Elusen Deiniolen; *Eco'r Wyddfa*; Dosbarthiadau Nos. Bu'n ysgrifennydd i'r Eisteddfod a sawl mudiad arall; yn dosbarthu'r *Eco* ac yn trefnu ci blygu; yn aelod poblogaidd o'r Côr am flynyddoedd. Ac ym mhob maes gwnaeth gyfeillion ac ennill serch y bobl y byddai'n cydweithio â hwy.

Bu'n gyfaill da a ffyddlon. Gadwodd gyfeillion a wnaethai ym more oes, yn nyddiau coleg, ac yn ystod ei gyfla fel athrawes yn Sir y Fflint ac ym Maesgeirchen. Datiodd i wneud cyfeillion newydd trwy ei hamrywiol ddiddordebau, a buan iawn y

## Jean Parc Jones

### Cesail y Mynydd Deiniolen

deuai pobl i deimlo eu bod yn ei hadnabod erystalwm. Fel cyfaill, roedd Jean yn rhannu ein llawenydd ac yn ymhyfrydu yn ein llwyddiant; yn rhannu ein gofidiau ac yn ein cynnal trwy drafferthion; yn gwrando'n cŵyn ac yn codi'n calon; a gallem ninnau ymddiried iddi ein cyfrinachau a derbyn ei chynghor doeth a chytbwys. Roedd ei hanwyldeb a'i sirioldeb yn ddeniadol, ac er ei holl brysurdeb roedd ganddi amser i bawb.

Bu'n hynod o driw i'w theulu a'i chymdogion, ac roedd yn arbennig o gymwynasgar o fewn ei chymdogaeth agosaf tua Rhiwen. Bu'n ofalus iawn o'i rhieni, ac yn arbennig o'i mam yn ei henaint. Bu'n ffyddlon i'w modryb, Miss Nansi Williams; ac i'w brawd, Geraint, a'i briod Viv, a'i nith Alion. Mae eu colled hwy yn fawr iawn.

Mae'n colled ninnau'n fawr yn yr eglwys Ebeneser, fel yn Nghefnywaun ac eglwys eraill y pentref, lle bu Jean yn gymaint rhan o'n bywyd a'n gwaith. Arferai Iesu Grist gael croeso mawr ar aelwyd Mair a Martha ym Methania, pan fyddai Mair yn gwrando arno'n dysgu a Martha'n brysur â'i chrocso ymarferol. A byth ers hynny gwelwyd dilynwyr Iesu Grist yn debyg i'r naill neu'r llall: rhai yn ddefosiynol a rhai yn ymarferol. Roedd Jean yn lot o Mair ac yn lot o Martha. Wyr neb faint a wnaeth Jean dros eglwys Ebeneser: cerddai'n gyson y ddegfed filltir. Bu'n ffyddlon i bob oedfa a chyfarfod; yn arwain yr Ysgol Sul; yn cyfeilio; yn ddiagon; yn ysgrifennydd; yn derbyn casgliadau; yn trefnu pwyllgorau; yn dosbarthu llythyrau; a mwy. Gwnâi bopeth yn brydlon a threfnus a graenus. Bu'n un mor ffyddlon yng Nghefnywaun ac yn weithgar gyda'r Cyngor Eglwys lleol. Hi oedd trefnydd lleol Cymorth Cristnogol a thrysorydd Cymanfa Dosbarth Cwm-y-glo. Bu'n gefn i weithgareddau Cymdeithas y Beibl; yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyfarfod Chwarter a Phwyllgor trefnu Undeb yr Annibynwyr Cymrag yng Nghaernarfon yn 2000. Roedd hi'n aelod o bwyllgor Ysgol Sul yr Henaduriacth, ac er bod hwnnw yn perthyn i enwad arall, bu Jean yn gyfrifol am drefnu Sbrî yr Ysgol Sul flwyddyn neu ddwy yn ôl. Rhoes o'i gorau yn yr holl weithgarwch. Treuliai oriau lawer yn paratoi ar gyfer yr Ysgol Sul, ac elwodd sawl genhedlaeth o blant o'i chael yn athrawes iddynt.

Un o'r pethau y mynnai ei wneud oedd pwysleisio'r gofal Cristnogol am eraill, megis pan fyddai'n cin hannog i godi arian i helpu pobl mewn amrywiol drychinebau ym mhellafoedd byd. Ac wedi casglu arian neu nwyddau, byddai Jean yn mynnu helpu wedyn, fel pan fyddai'n cludo bocsys Operation Christmas Child i'r warws yn Wrecsam. Fel Martha, acth i drafferth mawr

wrth wasanaethu Iesu Grist.

Ond roedd hi'n Fair hefyd; a'r ffaith ei bod hi gymaint o Fair a'i gwnaeth yn gymaint o Fartha. Roedd ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist yn gadarn; a'i hymddiriedaeth yn Nuw yn sicr; ac addoli yn holl bwysig iddi. Fu neb yn fwy ffyddlon na hi yn yr oedfaon. O'r addoli y câi ei nerth a'i chysur. Roedd yn ymwybodol o'i hangen am gymorth Duw, a dysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu oedd rheol ei bywyd. Byddai wrth ei bodd yn trafod Gair Duw mewn Dosbarth Beiblaidd. Roedd Jean yn mwynhau'r bywyd Cristnogol ac yn cael nerth a llawenydd o'r Ffydd.

Roedd yn wraig annwyl dros ben; yn onest; yn ddibynadwy; yn groesawgar; ac yn gefnogol. Roedd y rhinweddau hyn yn rhan ohoni, ond cawsant eu gloywi a'i miniogi gan ei Ffydd Gristnogol. Ni chlywais erioed neb yn dweud gair cas amdani.

Nid oedd Jean, mwy na'r un ohonom, yn berffaith wrth gwrs. Byddai awgrymu ei bod yn berffaith yn wadiad o'r Ffydd a gofleidiodd hi mor eiddgar. Nid oedd Jean yn ei hystyried ei hun yn deilwng o gwbl o gariad a daioni Duw. (A byddai'n sicr yn anfodlon â'r deyrnged hon gan mai fel ei 'rhesymol wasanaeth' yr ystyriai hi bopeth a wnâi oherwydd ei chariad at ei Harglwydd). Gwyddai mai un o fendithion mawr y Ffydd Gristnogol yw'r maddeuant llawn sydd ar gael i ni trwy Iesu Grist. Rhan o lawenydd y bywyd Cristnogol iddi oedd y gobaith am faddeuant am bob pechod a bai. Ond gwnaeth Jean - neu gwnaeth Gras Duw yn ei bywyd - job dda iawn o guddio'r beiau hynny oddi wrth y gweddill ohonom. Fedrwech chi feddwl am un ohonyn nhw? Fedra i ddim.

Ac roedd ei hymddiriedacth yn Iesu Grist a'i Efyngyl, a'i sicrwydd bod y bywyd tragwyddol ar gyfer y rhai sy'n credu, yn ei chynnal trwy'r wythnosau olaf yma. Trwy ffydd gallodd wynebu ei hafiechyd gyda'r tangnefedd a'r gobaith a fu mor amlwg yn ei holl fywyd. Gwyddai ym mhwy yr oedd wedi credu, a gwyddai ei bod yn gwbl ddiogel yn llaw ei Harglwydd. Gwelsom Jean yn gwanychu dros yr wythnosau diwethaf, a'r afiechyd yn ddychrynlyd o gyflym yn cael y gorau arni, nes ennill y dydd fore'r Sulgwyn, Mai 15. Ond gobaith mawr y Ffydd Gristnogol yw y gallwn ddweud bod y gair olaf yn ciddo i Iesu Grist. Mae'r afiechyd wedi cario'r dydd am eiliad, a'r angau wedi cymryd Jean oddi wrthym. Ond dyna'r cwbl a ddigwyddodd: cymcrodd angau hi oddi wrthym ni. Ni allodd angau ddal gafael arni. Mae atgyfodiad Iesu Grist a'i fuddugoliaeth ef dros farwolacth yn warant i ni bod pawb sy'n marw ac yn credu ynddo yn mynd trwy farwolaeth i'r bywyd tragwyddol. Yr un mor sydyn ag y cydiodd angau ynddi, fe gollodd ei afael arni hefyd.

Diolch i Dduw am gael ei hadnabod.

## Fframio Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith cda'u a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth - Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW

KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)


(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)







# CROESAIR MEHEFIN



Termau 1 ar draws ydi'r atebion i'r cliwiau sydd wedi eu tanlinellu – ac nid geiriau Cymraeg vdynt.

## Ar Draws

5. Chwyrn a chroyw (8)
11. Y ffrwyth cyntaf – a dawn ryfeddol iddo..... (5)
12. .... yn Eden neu Fodnant? (5)
13. Lliw Nesta? (5)
14. Pêl bren a ddefnyddid mewn gŵyl yn Nyfed? (6)
15. Pwff o wynt o'r chwael (3)
16. Llwynog ar fynydd yn Llŷn y soniodd Cynan amdano? (6)
19. Planhigion pigog efo blodau melyn (5)
20. Y goleuni sy'n dechrau gloywi'r wybren ambell wawr liwgar! (5)
22. Gall dinistrio'r greal mewn encilfa ... (5)
25. .... arwain at wyneb hir! (4)
27. Dechrau caledu ei law a nerthu ei ddwrn ar gyfer y lladdfa! (7)
28. Aderyn bro'r Eco? (4)
30. Dymuno, ethol ..... (5)
31. .... a chymell (5)
32. Tawel (5)
34. Araf (6)
36. Y mis byrraf mewn un ystyr (3)
38. Cyflym (6)
42. Glanhau â dŵr (5)
43. Uchel (5)
44. Estyniad i'r garafan (5)
45. Gall tin Oscar wneud castiau ..... (8)
46. .... a dyma'r dillad isaf sy'n cuddio tin Oscar!! (8)


## I Lawr

1. Person mympwyol sy'n byw ar waelod y môr? (5)
2. Dirweddaueth (7)
3. Cyfarwydd y Sul? (7)
4. Agwedd un mewn clos goch .... (4)
6. .... yn adio dwy ac un! (4)
7. Ffrwythau coeden y bydd plant yn eu curo yn erbyn ei gilydd (8)
9. Gwilym i droi tir (5)
9. Coeden sydd â'i phren yng nghalon nenfyr yr adeilad (5)
10. Gwmini ar fwrdd y llong? (4)
17. Arweddau (7)

18. Bywiog (7)
19. Gwisg i'r droed (5)
21. Braich Jumbo? (5)
23. Mae nifer o anifeiliaid yn pori wrth geg yr afon! (3)
24. Urddasol (5)
26. Mae lles mewn potel win! (3)
29. Gwion, y si rhyfedd yw y gellir cistedd arnat! (8)
32. Swynol (7)
33. Gwylio athrawes reit siapus yn ledio wythawd ifanc yn y dechrau! (7)
34. Cas iawn ..... (5)
35. .... ac anhrefnus (5)
37. A'i hwn sy'n gweithio hefo'r athrawes siapus? (4)
39. Brawiau ..... (5)
40. .... a bod mewn braw (4)
41. Cerbydau Tre'r Ceiri? (4)

Derbynias atebion i groesair mis Mai gan Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Margaret Wyn Roberts a Mair Evans, Caernarfon; Moreen Lennon, A. Hughes, Olwen Owen a Nan Owen, Llanberis; Nant Roberts, Llanrug; Jennie Williams, Clynog; H. O. Hughes, Pwllheli; N. Hughes, Cwm y Glo; Alvona Jones, Prestatyn; Gwen Griffith, Deiniolen; Gareth Oliver, Tregarth; Megan Morris, Dinorwig; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Nansi Davies, Rhuthun; Pat Owen, Llanmiloe; a Dilys Pritchard-Jones, Abererch.

Enillydd y mis ydi Nant Roberts, Arwel, Llanrug, Llongyfarchiadau a £5 i chi.



# LLANRUG

(Parhad o dudalen 16)

## Pêl-droed y genethod.

Roedd y tîm yn cynrychioli Rhanbarth Eryri yn y Gystadleuaeth Genedlaethol yn Aberystwyth, ddydd Sadwrn, 7 Mai. Daethant yn fuddugol mewn dwy gêm, cyfartal mewn dwy arall a cholli un. Mwynhaodd pob un y profiad yn fawr. Rhaid diolch i'r athraon a fu'n hyfforddi ac i'r rhieni am fynd i gefnogi'r chwaraewyr.

## Eisteddfod yr Urdd.

Dymunwn yn dda i Chloe Roberts, Blwyddyn 4, a fydd yn cynrychioli Rhanbarth Eryri yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo Unigol dan 12 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ddydd Mawrth, 31 Mai.

## Gwaith Thema.

Fel rhan o'u gwaith thema 'Y Fferm', cafodd disgyblion Blwyddyn Derbyn a Meithrin fynd ar ymweliad â Fferm Glynllifon. Dymunant ddiolch i'r myfyrwyr a'u tiwtoriaid am y croeso a gawsant yno ac am eu tywys o amgylch i weld yr anifeiliaid a chael bwydo'r moch.

Fel rhan o'u gwaith thema hwy, 'Ein Bro', bu disgyblion yr Adran Iau yn crwydro o amgylch y pentref o dan arweiniad Anti Gwar, yn hel atgofion am y pentref fel yr oedd yn ei phlentyndod hi.

Daeth disgyblion B1 a 2 i'r ysgol ar eu beiciau fore Mawrth, 10 Mai,

fel rhan o'u gwaith thema hwythau, sef 'Mynd am Dro'. Buont yn ymarfer rhai o reolau defnyddio beic yn ddiogel ar y ffordd gyda'u hathrawon.

## Noson Bingo.

Cafwyd noson o Bingo yn Neuadd yr Ysgol nos Lun, 16 Mai. Roedd yn noson dda gyda phawb yn frwdfrydig i gael llinell a thŷ.

Dymuna Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol ddiolch i'r rhai a gyfrannodd at y gwobrau ac i bawb a gefnogodd y weithgaredd.



Llongyfarchiadau i Rhodri Llŷn Brookes a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth Alaw Werin Dan 12 yn Eisteddfod Clynogfawr a'r Cylch ar 7 Mai, 2005.



Mae tîm Pêl-droed Dan 11, Llanrug Glas eisau diolch yn fawr iawn i Dylan, Siop Sglodion, Tegfan, Llanrug, am eu noddi a phrynu cit newydd iddynt. Rheolwyr y tîm: Len Brookes a Kevin Tulliver.

# PEN TYMOR ARALL

Ychydig o lwyddiant ddaeth i dimau'r fro o ran tlysau, er y cafwyd ambell berfformiad unigol i'w ganmol. O ran safle, Y Darans yn sicr yw prif dîm y fro ar hyn o bryd. Brاف hefyd oedd gweld ail dîm unwaith eto yn Llanberis. Mac angen y timau yma i gynnal y rhediad i bêl-droed hŷn o'r timau dan -17 lleol. Yn wir, daeth tîm -17 Llanberis â thlws adref. Cipiwyd cwpan yng Nghyngorair Aberconwy drwy drechu Llandudno 5-2.

Siomedig fydd Llanrug cfo'u safle terfynol yn yr Alliance, ond yn sicr mae rhai o'r chwaraewyr ieuanc wedi elwa, ac yn siŵr o ddatblygu. Canmoliacth hefyd am gyflwr cyfleusterau Eithin Dwan. Teynged ddiwng i Pys ac eraill o'r arloeswyr a roddodd sylfeini cadarn i'r clwb yma. Cafodd yr ail dîm fwy o lwyddiant yn brwydro yng Nghyngorair Arfon gyda'r

ceffylau blaen, Y Boro' a'r Bontnewydd.

Tymor o gynefino mewn cynghrair uwch oedd hi i Fethel. Llwyddwyd i wneud hynny, er byddant yn siomedig eu bod wedi colli cyn gymaint o gemau o un gôl, a'r rheini yn aml yn goliau hwyr. Byddant yn falch o gyrraedd rownd derfynol Tarian Eryri, er colli 4-0 i Ddyffryn Nantlle. Gallant edrych ymlaen i gryfhau y garfan y tymor nesaf, ac adeiladu ar y tymor cyntaf hwn.

Mae Deiniolen yn dal i chwifio'r faner, a gobcithir denu mwy o brofiad yno y tymor nesaf i gefnogi'r icuencid. Cofiaf fy linell fawr tra'n darlledu'r rhaglen Gwaraeon ar y radio o'r Bwthyn, a thîm Deiniolen yn euro un o geffylau blaen Clwyd yng Nghwpan Barritt. 'Cyda sioc o ganlyniad yma ar y Bwthyn, yn ôl at Nic Parry yn Stamford Bridge.'



# CHWARAEON

## Tymor rasio mynyddoedd – rhedwyr lleol ar y brig

Mae'r tymor rasio mynyddoedd wedi hen ddechrau erbyn hyn, a nifer o rasmus pencampwriaeth – rhai Prydeinig a rhai Cymru – eisoes wedi eu cynnal. Gall fod peth cymhlethdod yng Nghymru eleni gan fod dwy bencampwriaeth genedlaethol yn cael eu cynnal: un swyddogol gan Athletau Cymru (*Welsh Athletics*) sy'n gyfrifol am gofrestru pob athletwr Cymreig, ac am anfon timau cenedlaethol i gystadlu dramor, ac un arall gan Gymdeithas Rhedwyr Mynydd Cymru (*Welsh Fell Runners Association*), sy'n gorff hollol annibynol, ac yn gweithredu ar eu liwt eu hunain yn dilyn rhwyg rhyngddynt â'r gymdeithas genedlaethol ddiwedd y llynedd. Er hynny, gall rhedwyr gystadlu yn y ddwy bencampwriaeth, gyda'r siawns i ddod yn bencampwr Cymru ddwywaith yn yr un flwyddyn!

Cyfes o rasmus sy'n boblogaidd iawn yn yr ardal hon yw'r Gynghrair Nos Fawrth, gyda nifer o rasmus byr yn cael eu cynnal bob pythefnos. Erbyn y daw'r *Eco* o'r wasg bydd pedair o'r rasmus rheini eisoes wedi eu cynnal. Mae rhedwyr lleol eisoes yn gwneud eu marc yn y gyfres, gydag Alun Vaughan, Dylan Jones a Colin Donnelly yn

ymgiprys ar y blaen.

Roedd Ras y Moelwyn eleni yn rhan o bencampwriaeth Prydain a daeth dros ddau gant o'r rhedwyr gorau yno i gystadlu. Richard Williams, Deiniolen, a Dyfed Thomas, Llanrug, oedd y ddau redwr cyntaf o fro'r *Eco* mewn amser cyfartal o awr 35 munud a naw eiliad. Roedd Jayne Lloyd o Bontrug yn bedwaredd ferch dros 40 oed, a Maggie Oliver o Ddinorwig y ferch gyntaf dros 50 oed.

Cynhaliwyd Ras Moel Eilio ar yr ail Sadwrn ym Mai, ac cr nad oedd yn rhan o unrhyw bencampwriaeth eleni, mae'n ras mor boblogaidd fel y daeth pedwar ugain o redwyr o bob cwr o Brydain i Lanberis. Ben Bardsley o Glwb Borrowdale oedd yn fuddugol wedi cystadleuaeth galed iawn yn erbyn Alun Vaughan, a ddaeth yn ail. Roedd Dyfed Thomas, Llanrug yn nawfed, ac Arwel Lewis, Bethel, yn unfed ar ddeg (trydydd dros 40 oed).

Rhedwyr lleol eraill amlwg yn y ras oedd Jenny Hemming, Llanberis (trydedd ferch), Maggie Oliver, (merch gyntaf dros 50 oed), a'i gŵr, Alwyn Oliver (ail dros 60 oed), y ddau o Ddinorwig.

Trefnwyd y ras gan Tim a Jayne Lloyd, Pontrug.

## 50 MLYNEDD YN ÔL



(Cefn): Huw Weun, Wil Arthur, Jackie Lewis, Idris Penisarweun, Gordon Davies, Caradog Deiniolen, Stan Deiniolen, Elfed Wyn, John Hen Lôn.

(Blaen): Ifan Cae Corniog, Griff Pêr, Bobby Gringley, Now Weun, Elfed Davies.

'I ble rwyd ti'n mynd yn ystod gwyliau chwarel?'

'Istanbul.'

'Ti'n mynd yn bell iawn.'

'Na, ista'n Bull!'

Mentro crwydro wnaeth criw o hogiau chwarel Dinorwic 50 mlynedd yn ôl. Nid i'r cyfandir ond dros y môr i Ynys Manaw, a thref Douglas. Cefais lun o'r 'criw llon' gan Wil Arthur, o Fethel erbyn hyn.

Cofiai Wil fel y cafodd gerydd

gan ei dad am ei fod wedi cynilo o'r cyflog chwarel pitw ar gyfer yr 'antur'. Roedd wedi cynilo £60, ac roedd hynny'n bres mawr. Roedd yn ddigon i dalu am westy am bythefnos, trên o Fangor i Lerpwl a'r cwch o Lerpwl i Ynys Manaw. Mae'n gwestiwn a fuasai'r arian yn talu am bris tocyn trên heddiw! Roedd arian hefyd i dalu am yr *entertainment*.

Dyma'r criw bodlon a welir i ffwrdd o lwch y chwarel ar y wawth yn Ynys Manaw, 1955.

## NAID I LWYDDIANT



Lucy, merch Ian, yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth, ac yn marchogaeth Gucci.

Mae'n siŵr fod nifer ohonom wedi gyrru heibio arwydd Piggery Pottery ar gyrion Cwm y Glo, ond sefydliad arall sydd ar y safle yma. Ers rhyw naw mlynedd bellach mae Ian Winrow wedi sefydlu canolfan marchogaeth y Rhosyn Gwyn. Fel mae'r enw yn awgrymu, mae gwreiddiau Ian yn Swydd Efrog, ond bu yn yr ardal ers dros 20 mlynedd bellach. Mae ganddo ddiddordeb mawr mewn criced ac wedi chwarae'n llcol ers sawl blwyddyn.

Ym myd marchogaeth, mae Ian wedi mynychu sawl cwrs, ac yn drwyddedig fel cynllunydd cyrsiau. Yn y ganolfan, ceir cystadlaethau neidio traddodiadol ac hefyd yr ymarferiad clasurol, disgybledig o *dressage*. Mae'r ddisgyblaeth yma yn brawf o gyd-weithio rhwng y ceffyl a'r marchog, gyda newidiadau mewn cyflymder, hyd cam a chyfeiriad. Yn ystod

misoedd yr haf ceir cystadlaethau neidio bob pythefnos, a'r *dressage* unwaith y mis. Denir cystadleuwyr o ledled gogledd Cymru ac o ogledd-orllewin Lloegr.

Ym myd marchogaeth mae merch o Gacathro, Anna Marie Shepherd, wedi cael llwyddiant yn ddiweddar. Saith mlynedd yn ôl, cafodd Anna ddamwain ddrwg tra'n marchogaeth. Gyda chryn ddewrder a hyder dychwelodd yn ôl i'r gamp dair blynedd yn ôl. Yn ystod y cyfnod yma mae wedi datblygu doniau ei cheffyl pum mlynedd oed, Celtic First Edition. Cipiodd y ddau y brif wobwr mewn cystadleuaeth yn Llanellwyr. Yn sgil hynny, bydd yn cystadlu yn erbyn goreuon Prydain draw yn Swydd Buckingham ym mis Medi. Os na fydd llwyddiant, yn sicr byddant yn elwa o'r profiad, ac yn glod i Anna am ei dewrder a'i ffydd yn ei cheffyl.

## TLWS YR ECO

Ydy, mae hi yr amser yna o'r flwyddyn unwaith eto. Oherwydd llwyddiant y llynedd, rwyf am anelu i gadw at yr un drefn. Bydd cystadleuaeth pêl-droed i dimau -7, -9 a -11. Unwaith eto, y bwriad yw defnyddio meysydd Bethel a'r Fawnog Rydd yn Llanrug.

Cynhelir y cystadlaethau pêl-rwyd i gyd ar yr un noson ar fuarth Ysgol Gynradd Llanrug.

Fel y llynedd – dim chwyddiant gyda'r Eco – y tâl am gystadlu fydd £10 y tîm.

Ar gyfer y pêl-droed bydd pob gêm yn dimau o 8-bob-ochr ond gellir cael carfan o 10.

Gwnaf yr apêl flynyddol i'r rheolwyr i ddychwelyd y ffurflenni yn ôl i mi mewn da

bryd, os gwelwch yn dda.

Y tro yma, y dyddiad cau yw NOS WENER, GORFFENNAF 1af. Awgrymaf fod y rheolwyr yn llungopio y ffurflen, a llenwi ffurflen ar gyfer pob tîm. Dyma felly y dyddiadau pwysig.

### PÊL-DROED

-11: Nos Lun, 11 Gorffennaf (Bethel)

-9: Nos Fawrth, 12 Gorffennaf (Fawnog Rydd)

-7: Nos Lun, 18 Gorffennaf (Fawnog Rydd)

Y tair noson i ddechrau am 6 o'r gloch.

### PÊL-RWYD

-9 a -11: Nos Lun, 18 Gorffennaf (Ysgol Gynradd, Llanrug)

## TLWS YR ECO 2005

### Pêl-droed

Enw'r Tîm: \_\_\_\_\_ Oedran: -7; -9; -11 (Rhowch gylch)

Cyswllt: \_\_\_\_\_ Rhif Ffôn: \_\_\_\_\_

### Pêl-rwyd

Enw'r Tîm: \_\_\_\_\_ Oedran: -9; -11 (Rhowch Gylch)

Cyswllt: \_\_\_\_\_ Rhif ffôn: \_\_\_\_\_

Dychweler i RLJ erbyn 1/7/2005